Department for Energy Security & Net Zero

# Datganiad Polisi Cenedlaethol ar Ynni – Diweddariad 2025

## Arfarniad o Gynaliadwyedd – Crynodeb Annhechnegol

Ebrill 2025

© Hawlfraint y Goron 2025

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio pan nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch i Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu e-bostiwch psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom ni yn:
energyNPS@energysecurity.gov.uk

# Cynnwys


1. Trosolwg o'r Datganiad Polisi Cenedlaethol ar Ynni a'r Arfarniad o Gynaliadwyedd ____ 4

   Pa seilwaith ynni sy'n dod o dan y Datganiad Polisi Cenedlaethol sydd wedi'i ddiweddaru? 6

2. Y broses a ddilynir ar gyfer AoS wedi'i ddiweddaru ____ 10

   Y broses a ddilynir ar gyfer Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd wedi'i ddiweddaru ____ 11

   Y Fframwaith AoS wedi'i ddiweddaru ____ 11

3. Y broses arfarnu ____ 20

4. Crynodeb o brif ganfyddiadau'r AoS ar gyfer EN-1 ____ 22

5. Canfyddiadau'r AoS ar gyfer EN-3 wedi'i ddiweddaru – Seilwaith Ynni Adnewyddadwy 28

6. Canfyddiadau'r AoS ar gyfer EN-5 wedi'i ddiweddaru – Seilwaith Rhwydweithiau Trydan 34

7. Effeithiau cronnus gyda chynlluniau a rhaglenni eraill ____ 37

8. Effeithiau trawsffiniol ____ 39

9. Nodyn ar bolisi Blaenoriaeth Genedlaethol Hanfodol ____ 41

10. Monitro effeithiau rhoi'r Datganiad Polisi Cenedlaethol wedi'i ddiweddaru ar waith ____ 44

Geirfa a Rhestr Byrfoddau ____ 50

# 1. Trosolwg o’r Datganiad Polisi Cenedlaethol ar Ynni a’r Arfarniad o Gynaliadwyedd

Mae Arfarniad o Gynaliadwyedd (AoS) wedi cael ei baratoi ar gyfer y Datganiad Polisi Cenedlaethol diweddaraf ar Ynni. Mae’r Datganiad Polisi Cenedlaethol ar Ynni yn cynnwys y gyfres ganlynol o Ddatganiadau Polisi Cenedlaethol:

- EN-1: Datganiad Polisi Cenedlaethol Cyffredinol
- EN-2: Cynhyrchu Trydan Nwy Naturiol
- EN-3: Cynhyrchu trydan adnewyddadwy (ar y tir ac ar y môr)
- EN-4: Y seilwaith cyflenwad nwy a phiblinellau nwy ac olew
- EN-5: Y rhwydwaith trawsyrru a dosbarthu trydan
- EN-6: Cynhyrchu niwclear

Sylwch fod y Datganiad Polisi Cenedlaethol sy’n ymwneud â chynhyrchu niwclear (EN-6) yn dal fel y’i dynodwyd gan yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd yn 2011. Dim ond mewn perthynas â chynhyrchu trydan niwclear erbyn diwedd 2025 y mae EN-6 yn berthnasol, ond mae’n parhau i ddarparu gwybodaeth a allai fod yn bwysig ac yn berthnasol i brosiectau a fydd yn cael eu cyflwyno ar ôl 2025. Mae’r Datganiad Polisi Cenedlaethol newydd (EN-7) ar gyfer cynhyrchu Niwclear newydd wrthi’n cael ei ddatblygu mewn proses ar wahân. Ar ôl i hwnnw gael ei ddynodi, bydd yn eistedd ochr yn ochr ag elfennau eraill y Datganiad Polisi Cenedlaethol ar Ynni. Ar wahân i EN-6, cafodd holl elfennau eraill y Datganiad Polisi Cenedlaethol (EN-1 i EN-5) eu hadolygu a’u diweddaru yn 2024.

Yn dilyn adolygiad pellach yn 2025, dim ond EN-1, EN-3 ac EN-5 sydd wedi cael eu diweddaru, felly dim ond EN-1, EN-3 ac EN-5 sy’n rhan o’r AoS hwn. Mae’r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net (DESNZ) yn cyhoeddi’r ENs a’r AoS diweddaraf ar gyfer ymgynghoriad. Sylwch, tra bydd yr adolygiad yn cael ei gynnal, mae’r gyfres bresennol o Ddatganiadau Polisi Cenedlaethol yn dal yn berthnasol i bolisi’r llywodraeth, ac mae EN-1 i EN-5 yn cael effaith at ddibenion Deddf Cynllunio 2008.

Bydd darpariaethau’r Datganiadau Polisi Cenedlaethol ar ynni yn cael eu defnyddio wrth benderfynu ar ganiatâd cynllunio ar gyfer cenhedlaeth newydd o seilweithiau ynni mawr. Mae’r AoS sydd wedi’i ddiweddaru yn nodi effeithiau cynaliadwyedd sylweddol tebygol datblygu seilwaith ynni newydd o’r mathau a ragwelir gan y Datganiadau Polisi Cenedlaethol ynni wedi’u diweddaru. Mae’r AoS yn bodloni gofynion Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni 2004 (fel y’u diwygiwyd), sy'n cael eu galw yn Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol Strategol, a’r gofyniad yn Neddf Cynllunio 2008 ei bod yn rhaid cynnal AoS o’r polisi a nodir yn y diwygiad arfaethedig i Ddatganiad Polisi Cenedlaethol cyn mabwysiadu’r

diwygiadau hynny. Mae cwmpas arfarniad o'r fath yn debyg i un adroddiad amgylcheddol o dan y Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol Strategol, ond gyda mwy o bwyslais ar effeithiau cymdeithasol ac economaidd, ac maent yn seiliedig ar egwyddorion datblygu cynaliadwy (crynhoir hyn yn aml fel sicrhau bod datblygiad yn diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain).

Pwrpas yr AoS hwn sydd wedi'i ddiweddaru yw pwyso a mesur effeithiau'r newidiadau sylweddol a wnaed gan DESNZ drwy gydol EN-1, EN-3 ac EN-5 fel rhan o'r broses o ddiweddaru ac adolygu. Cafodd y newidiadau sylweddol eu nodi yn y ddogfen ymgynghori – 'Datganiadau Polisi Cenedlaethol drafft diwygiedig ar gyfer seilwaith ynni' – a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghoriad ym mis Ebrill 2025. Ar ben hynny, mae'r AoS hwn sydd wedi'i ddiweddaru hefyd wedi rhoi cyfle i ystyried Fframwaith AoS diwygiedig, a ddatblygwyd fel rhan o broses yr adolygiad cyfnodol a oedd yn destun ymgynghoriad yn ystod mis Chwefror a Mawrth 2025, ac a gymhwyswyd i asesiadau diweddaraf EN-1, EN-3 ac EN-5. Mae'r fframwaith diwygiedig i'w weld ym Mhennod 2 ac mae'n adlewyrchu newidiadau mewn cyfeiriad polisi a/neu bolisïau newydd a gyflwynwyd ers cynnal yr ymarfer cwmpasu diwethaf, ac yn gwneud diweddariadau i ddeall yr amodau sylfaenol, ac unrhyw faterion newydd sy'n ymwneud â chynaliadwyedd. Mae blaenoriaethau'r llywodraeth, fel y nodir yng nghenhadaeth Pŵer Glân 2030, yn arbennig o berthnasol i'r asesiad.

Sylwer, er na wnaed unrhyw ddiwygiadau i EN-2 ac EN-4 fel rhan o'r broses adolygu a diweddaru, ystyriwyd nad oedd y newidiadau i fframwaith yr AoS yn cyfiawnhau ailagor yr asesiadau ar gyfer y technolegau penodol a nodir yn EN-2 ac EN-4. Oherwydd hyn, dylai'r darllenydd gyfeirio at y Datganiad Polisi Cenedlaethol ar ynni – Arfarniad o Gynaliadwyedd (Ionawr 2024)[1] i gael manylion asesu llawn.

Mae diweddariadau i'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd wedi cael eu cynnal ochr yn ochr â'r diweddariadau i'r AoS ac mae'r canlyniadau wedi'u cynnwys yn yr AoS sydd wedi'i ddiweddaru fel y bo'n briodol, er yr adroddwyd ar wahân ar ddiweddariadau o'r fath er mwyn bodloni gofynion y Rheoliadau Cynefinoedd.

Mae'r AoS wedi'i ddiweddaru a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn dal yn berthnasol i'r un ardal ddaearyddol yn y Datganiad Polisi Cenedlaethol – sef Cymru a Lloegr – er y bydd elfennau, o dan rai amgylchiadau, yn berthnasol i'r Alban. Nid yw'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol ar Ynni yn berthnasol i Ogledd Iwerddon. Mae cwmpas amserol yr AoS sydd wedi'i ddiweddaru a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn dal yn cyd-fynd â'r rhai sy'n berthnasol i'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol, a fydd yn aros mewn grym oni bai eu bod yn cael eu tynnu'n ôl neu eu hatal yn gyfan gwbl neu'n rhannol gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Fodd bynnag, dylid nodi bod yr AoS sydd wedi'i ddiweddaru a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn dal yn ystyried oes gyfan unrhyw ddatblygiad unigol sy'n gysylltiedig ag ynni a allai ddeillio o'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol diweddaraf. Mae hynny'n cynnwys y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu.

[1]Gweler y Datganiadau Polisi Cenedlaethol ar gyfer seilwaith ynni - GOV.UK

## Pa seilwaith ynni sy'n dod o dan y Datganiad Polisi Cenedlaethol sydd wedi'i ddiweddaru?

Mae'r Datganiad Polisi Cenedlaethol sydd wedi'i ddiweddaru (EN-1, EN-3 ac EN-5) yn cynnwys y Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIP) canlynol:

- **gorsafoedd cynhyrchu trydan (sy'n bodloni'r trothwyon a nodir yn Neddf Cynllunio 2008).** Mae hyn yn cynnwys gorsafoedd cynhyrchu ar y tir (ond nid storio trydan, ac eithrio storio hydrodrydanol) sy'n cynhyrchu mwy na 50 megawat (MW) yn Lloegr a 350MW yng Nghymru, gwynt ar y tir sy'n cynhyrchu mwy na 100MW yn Lloegr yn unig, a solar sy'n cynhyrchu mwy na 100MW yn Lloegr a 350MW yng Nghymru. Mae hefyd yn cynnwys gorsafoedd cynhyrchu ar y môr sy'n cynhyrchu mwy na 100MW ar y môr mewn dyfroedd tiriogaethol wrth ymyl Lloegr ac yn rhan Lloegr o'r Ardal Ynni Adnewyddadwy, a'r rheini sy'n cynhyrchu mwy na 350MW mewn dyfroedd tiriogaethol wrth ymyl Cymru a rhan Cymru o'r Ardal Ynni Adnewyddadwy (Ardal Cymru fel y'i diffinnir gan adran 158 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006). Ar gyfer y mathau hyn o seilwaith, y Datganiad Polisi Cenedlaethol Cyffredinol (EN-1), ar y cyd ag unrhyw un o'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol sy'n berthnasol i dechnoleg benodol fydd y prif bolisi ar gyfer prosesau gwneud penderfyniadau'r Ysgrifennydd Gwladol.
- **cyfleusterau nwy naturiol hylifedig (LNG) a derbyn nwy ar raddfa fawr a chyfleusterau storio nwy o dan y ddaear (gan fodloni'r trothwyon a nodir yn Neddf Cynllunio 2008).** Ar gyfer y seilwaith hwn, EN-1, ar y cyd ag EN-4 (ar gyfer nwy naturiol yn unig) fydd y prif bolisi ar gyfer prosesau gwneud penderfyniadau'r Ysgrifennydd Gwladol.
- **piblinellau nwy ac olew a phibellau Cludo Nwy ar draws gwledydd (gan fodloni'r trothwyon a'r amodau a nodir yn Neddf Cynllunio 2008).** Ar gyfer y seilwaith hwn, EN-1, ar y cyd ag EN-4 (ar gyfer nwy naturiol yn unig) fydd y prif bolisi ar gyfer prosesau gwneud penderfyniadau'r Ysgrifennydd Gwladol.
- **llinellau trydan uwchben y ddaear ar neu uwchlaw 132kV (gan fodloni'r trothwyon a nodir yn Neddf Cynllunio 2008).** Ar gyfer y seilwaith hwn, EN-1, ar y cyd â'r Datganiad Polisi Cenedlaethol ar Rwydweithiau Trydan (EN-5) fydd y brif sail ar gyfer prosesau gwneud penderfyniadau'r Ysgrifennydd Gwladol.

Dyma drosolwg o'r newidiadau perthnasol i EN-1, EN-3 ac EN-5, yr ystyrir sydd â goblygiadau penodol i'r AoS, gan eu bod yn newid cyfeiriad polisi'n fras neu'n cyflwyno elfennau newydd neu estynedig i'r Datganiad Polisi Cenedlaethol:

**Pŵer Glân 2030:** Yng Nghynllun Gweithredu Pŵer Glân 2030, ymrwymodd y llywodraeth i ddiweddaru'r Datganiad Polisi Cenedlaethol ar Ynni yn 2025 i adlewyrchu anghenion Pŵer Glân 2030, gan wella sicrwydd polisi i ddatblygwyr ac awdurdodau archwilio. Mae naratif y polisi drwy EN-1 wedi cael ei ddiweddaru i sicrhau bod Pŵer Glân 2030 yn ganolog fel y prif bolisi y mae'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol yn ei alluogi. Mae'n cyfeirio at Gynllun

Gweithredu Pŵer Glân 2030, sy'n cynnwys yr ystodau o ran capasiti ar gyfer technolegau yn 2030 y mae'r Datganiadau'n eu cefnogi. Er mwyn cyflawni Pŵer Glân 2030 yn llwyddiannus, bydd angen cyflwyno ynni glân newydd yn gyflym. Mae darparu Pŵer Glân 2030 hefyd yn braenaru'r tir ar gyfer datgarboneiddio'r economi ehangach erbyn 2050, a bydd gwneud yn siŵr bod y naratif yn canolbwyntio ar y system gynllunio ac o'i chwmpas yn ei gwneud yn bosibl bodloni'r ystodau hynny drwy sicrhau bod datblygwyr yn cyflwyno prosiectau perthnasol.

Gall prosiectau seilwaith sy'n berthnasol ar gyfer Pŵer Glân 2030 gael eu hystyried yn Flaenoriaeth Genedlaethol Hanfodol, gyda rhagdybiaeth o blaid caniatáu. Mae'r Datganiad Polisi Cenedlaethol wedi'i ddiweddaru yn tynnu prosiectau Troi Gwastraff yn Ynni o bolisi Blaenoriaeth Genedlaethol Hanfodol oherwydd nad yw prosiectau o'r fath yn bodloni'r diffiniad o dechnoleg pŵer glân yng Nghynllun Gweithredu Pŵer Glân 2030.

Cafodd polisi Blaenoriaeth Genedlaethol Hanfodol ei gyflwyno i'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol yn 2024. Mae'r polisi'n caniatáu i bwysigrwydd seilwaith ynni carbon isel gael ei ystyried yn ystod proses yr Ysgrifennydd Gwladol o wneud penderfyniadau. Mae'r polisi'n golygu, ar gyfer prosiectau seilwaith cymwys, lle mae effeithiau gweddilliol yn parhau i fodoli ar ôl defnyddio'r hierarchaeth lliniaru, ei bod yn annhebygol y bydd caniatâd yn cael ei wrthod ar sail yr effeithiau gweddilliol hyn.

**Ynni Gwynt ar y Tir:** Mae ynni gwynt ar y tir yn dechnoleg aeddfed, effeithlon a chost isel sy'n chwarae rhan bwysig yng nghymysgedd ynni'r DU. Mae defnydd mawr o ffermydd gwynt ar y tir yn hanfodol er mwyn bodloni llwybr pŵer glân y llywodraeth ar gyfer 2030. Mae Cynllun Gweithredu Pŵer Glân 2030 yn amcangyfrif y bydd angen 27-29GW o gapasiti gwynt gweithredol ar y tir erbyn 2030.

Ystyrir ei bod yn hanfodol bod datblygwyr yn defnyddio'r llwybr cynllunio mwyaf effeithlon i gael caniatâd ar gyfer eu prosiectau ynni er mwyn gwneud y DU yn archbŵer ynni glân. Dyna pam, ar ôl ymgynghori, yr ymrwymodd y llywodraeth ym mis Rhagfyr 2024 i ailgyflwyno ynni gwynt ar y tir i drefn yr NSIP, ar drothwy o 100MW.

Bydd ailgyflwyno ynni gwynt ar y tir i drefniadau'r NSIP yn sicrhau y bydd yn cael ei drin yr un fath â thechnolegau cynhyrchu eraill fel solar, gwynt ar y môr a niwclear. Bydd hyn yn darparu llwybr priodol ar gyfer prosiectau mawr sy'n gwneud cais am ganiatâd cynllunio, lle gellir cydbwyso effeithiau lleol yn ofalus yn erbyn y manteision cenedlaethol a chyflawni targedau datgarboneiddio ehangach y DU. Er mwyn cefnogi'r gwaith o asesu a phenderfynu ar brosiectau ynni ar y tir sy'n ymuno â threfniadau'r NSIP, mae'r llywodraeth wedi cynnwys adran newydd yn EN-3 sy'n mynd i'r afael â'r effeithiau, yr ystyriaethau a materion eraill sy'n benodol i ynni gwynt ar y tir.

**Ynni Gwynt ar y Môr:** Fel rhan o'r cam cyn ymgeisio ar gyfer fferm wynt arfaethedig ar y môr, cynigir yn EN-3 wedi'i ddiweddaru y dylid cynnal asesiad o effeithiau olion (wake) rhyng-aráe rhwng ymgeiswyr a'r rheini o ffermydd gwynt gweithredol a rhai sydd wedi cael caniatâd yn y cam cyn ymgeisio, gyda'r nod o lywio a chefnogi'r dasg o ystyried mesurau lliniaru posibl.

Cynigir hefyd y dylai datblygwyr wneud ymdrechion rhesymol i ddangos eu bod wedi mynd ati i reoli effaith olion ar ddeiliaid eraill ac wedi nodi enghreifftiau o beth allai hyn ei gynnwys.

Mae'n egluro bod dulliau posibl yn cynnwys egluro sut mae ffurfweddiad y prosiect wedi esblygu yn ystod y broses ddylunio i leihau'r effaith neu osgoi'r ffurfweddiadau sy'n cael yr effaith fwyaf, neu reoli cynllun arfaethedig aráe tyrbinau gwynt ar y môr i ddewis cynlluniau sy'n cael llai o effaith o ran olion sy'n mynd yn bell ar ddeiliaid eraill.

Y nod wrth gynnwys y pethau hyn yw rhoi mwy o eglurder ynghylch sut y gall ymgeiswyr ystyried a lliniaru o bosibl effeithiau olion rhyng-aráe rhwng datblygiadau newydd a ffermydd gwynt sydd â chaniatâd a ffermydd gwynt gweithredol cyfagos, a sut y gallent ddangos eu hymdrechion i reoli'r effeithiau hynny, gan ganiatáu ar gyfer amrywiaeth o ddulliau yn dibynnu ar amgylchiadau unigol. Sylwch nad oes disgwyl i'r Ysgrifennydd Gwladol ddyfarnu na dilysu asesiadau o effeithiau olion.

**Seilwaith y Rhwydwaith Trydan:** Mae angen gwneud ymdrech unwaith mewn cenhedlaeth i ehangu rhwydwaith trydan Prydain Fawr er mwyn darparu ynni glân cynhenid newydd i gartrefi a busnesau ar hyd a lled y wlad. Bydd y newidiadau arfaethedig yn helpu i adeiladu'r seilwaith newydd hwn yn gyflymach, gan sicrhau proses drylwyr i leihau costau ac effeithiau ar yr un pryd.

Mae'n hanfodol ein bod yn mabwysiadu dull cyfannol o gynllunio seilwaith trawsyrru er mwyn diwallu'r cynnydd yn y galw am drydan carbon isel, gan ddiogelu ffynonellau ynni a chyrraedd y nod sero net cenedlaethol. Gan adeiladu ar waith Dylunio Rhwydwaith Cyfannol y "Llwybr at 2030" ar gyfer ynni gwynt ar y môr ac adroddiadau "Y Tu Hwnt i 2030" (Beyond 2030), bydd y Cynllun Rhwydwaith Strategol Canolog (CSNP) yn helpu i leihau effaith gyffredinol seilwaith drwy edrych yn gydlynol ar y rhwydwaith ynni ar y tir ac ar y môr. Bydd y CSNP yn cynnig dull gweithredu annibynnol hirdymor hyd at 2050 ar sut dylai'r rhwydwaith trawsyrru ddatblygu i gyflawni targedau diogelwch ynni a datgarboneiddio. Bydd yn cael ei gyflwyno gan y Gweithredwr System Ynni Cenedlaethol (NESO) a'i reoleiddio gan Ofgem. Bydd y CSNP cyntaf yn cael ei gyflwyno yn 2027. Bydd cynlluniau rhwydwaith yn ystyried effeithiau amgylcheddol a chymunedol, ochr yn ochr â chyflawni, ymarferoldeb a chost economaidd, o'r cychwyn cyntaf.

Bydd proses y CSNP yn darparu asesiad cadarn o'r opsiynau posibl. Byddai cymeradwyo drwy'r Datganiad Polisi Cenedlaethol yn golygu na fyddai'n rhaid i'r achos angen a'r math o dechnoleg ar gyfer prosiectau sy'n glynu wrth argymhellion y CSNP gael eu harchwilio yn y broses gydsynio. Byddai'r CSNP yn sefydlu'r achos angen a'r ateb technolegol; gallai dileu hyn o'r broses gydsynio gyflymu'r cam cyn cydsynio a lleihau'r risg ar lefel prosiect.

Bydd y broses gymeradwyo'n cynnwys:

- Yr achos angen ar gyfer atgyfnerthu.
- Paramedrau strategol atgyfnerthu: cerrynt amgen foltedd uchel (HVAC) neu gerrynt uniongyrchol foltedd uchel (HVDC), ar y tir/ar y môr neu, yr amlen ofodol – ardal

benodol lle bydd opsiynau'n cael eu hasesu, a sut mae'n cysylltu â'r Brif System ar gyfer Trosglwyddo Rhyng-gysylltiedig.

Ni fydd y broses gymeradwyo'n cynnwys:

- Y llwybrau dangosol rhwng y seilwaith a argymhellir: bydd penderfyniadau llwybro yn cael eu cadarnhau yn ystod y broses Dylunio Rhwydwaith Manwl yn unol ag arolygon ac ymgynghoriadau priodol. O'r herwydd, gall llwybrau newid ac ni ddylid eu hystyried yn rhai sefydlog at ddibenion cynllunio.

**Troi Gwastraff yn Ynni (EfW):** Yng nghyd-destun y Datganiad Polisi Cenedlaethol, mae gorsafoedd Troi Gwastraff yn Ynni yn cynnwys canolfannau troi gwastraff yn ynni confensiynol (h.y. cynhyrchu trydan a gwres) a Thriniaeth Thermol Uwch a Thechnolegau Trosi Uwch sy'n prosesu gwastraff gweddilliol i greu nwyon synthesis neu danwydd hylifol. Eu prif bwrpas yw lleihau faint o wastraff gweddilliol sy'n mynd i safleoedd tirlenwi yn unol â'r hierarchaeth gwastraff, gyda'r ynni sy'n cael ei adfer o'r gwastraff hwnnw fel trydan, gwres neu danwydd, yn cael ei ystyried yn fudd eilaidd y dylid manteisio i'r eithaf arno cyn belled ag y bo modd.

Gan mai prif swyddogaeth gorsafoedd Troi Gwastraff yn Ynni, neu brosesau tebyg, yw trin gwastraff, y bwriad yw bod gorsafoedd o'r fath yn gwneud y canlynol:

- Diwallu angen sydd wedi'i ddiffinio'n glir i hwyluso'r gwaith o ddargyfeirio gwastraff na ellir ei ailgylchu o safleoedd tirlenwi, neu alluogi newid llosgyddion gwastraff hŷn, llai effeithlon;
- Mae modd eu hadeiladu'n barod i Ddal Carbon, yn unol â gofynion 'Parodrwydd i Ddatgarboneiddio' y llywodraeth ar ôl iddynt ddod i rym; a
- Dangos bod defnyddio'r gwres maent yn ei gynhyrchu yn ymarferol a'u bod yn gallu cysylltu â rhwydwaith gwres o fewn tair blynedd i'r orsaf ddechrau gweithredu.

Mae'n werth nodi y bydd gorsafoedd Troi Gwastraff yn Ynni hefyd yn cael eu cynnwys mewn ymdrechion i gymell defnyddio technoleg dal carbon drwy'r Model Busnes Dal Carbon Diwydiannol ar gyfer defnyddwyr diwydiannol, nad oes ganddynt ddewisiadau amgen ymarferol yn aml i gyflawni datgarboneiddio dwfn.

Mae'n bwysig nodi hefyd nad yw'r polisi Blaenoriaeth Genedlaethol Hanfodol yn berthnasol i geisiadau am brosiectau Troi Gwastraff yn Ynni ac mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi moratoriwm ar waith ar gyfer pob gorsaf Troi Gwastraff yn Ynni newydd sydd â chapasiti cynhyrchu o fwy na 10MW yng Nghymru.

# 2. Y broses a ddilynir ar gyfer AoS wedi'i ddiweddaru

Mae pum cam i broses yr AoS. Mae diweddariadau'r tri cham cyntaf, fel y disgrifir isod, wedi'u cwblhau hyd yn hyn:

**Cam 1:** Nodi cynlluniau, rhaglenni ac amcanion cynaliadwyedd eraill sy'n dylanwadu ar ddatblygiad y Datganiadau Polisi Cenedlaethol ac yn cyfrannu atynt; sefydlu dealltwriaeth o amodau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd sylfaenol y DU ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, gyda phwyslais penodol ar Gymru a Lloegr; nodi materion cynaliadwyedd allweddol yng Nghymru a Lloegr; amlinellu Amcanion AoS i werthuso cynigion y Datganiad Polisi Cenedlaethol yn eu herbyn yn ddiweddarach; a chasglu adborth o'r ymgynghoriad ar ehangder arfaethedig y sylw a lefel y manylion ar gyfer yr AoS. Datblygwyd Adroddiad Cwmpasu AoS wedi'i ddiweddaru ac ymgynghorwyd arno rhwng mis Chwefror a mis Mawrth 2025.

**Cam 2 –** Asesiad cychwynnol o gynigion y Datganiadau Polisi Cenedlaethol wedi'u diweddaru yn erbyn Amcanion yr AoS a darparu argymhellion i wella eu cynaliadwyedd; asesu opsiynau amgen i safbwyntiau polisi allweddol yn y Datganiadau Polisi Cenedlaethol wedi'u diweddaru; cwblhau asesiad o'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol wedi'u diweddaru sy'n cael eu ffafrio; nodi'r effeithiau cronnus, synergyddol ac anuniongyrchol sy'n debygol o godi o ganlyniad i roi cynigion y Datganiadau Polisi Cenedlaethol wedi'u diweddaru sy'n cael eu ffafrio ar waith; nodi mesurau lliniaru priodol i osgoi'r effeithiau negyddol a ragwelir; a chadarnhau rhaglen fonitro addas wedi'i diweddaru ar gyfer effeithiau arwyddocaol.

**Cam 3 –** Paratoi Adroddiad AoS wedi'i ddiweddaru i gyd-fynd â'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol wedi'u diweddaru ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus (Ebrill 2025). Dyma'r cam presennol, ac yn yr un modd â Chamau 1 a 2, adolygwyd, diweddarwyd ac adeiladwyd ar broses yr AoS a gynhaliwyd ar gyfer fersiwn flaenorol EN-1, EN-3 ac EN-5. Mae'r broses hon wedi adlewyrchu newidiadau i bolisi cynaliadwyedd ehangach a pholisi ynni sydd wedi digwydd ers y cyhoeddiad blaenorol.

**Cam 4 –** Paratoi Adroddiad AoS diwygiedig gan ystyried sylwadau ar yr ymgynghoriad cyhoeddus a newidiadau i'r Datganiad Polisi Cenedlaethol i gyd-fynd â'r Datganiad Polisi Cenedlaethol diweddaraf.

**Cam 5 –** Bydd y Llywodraeth yn ystyried sylwadau a ddaw i law yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus, a bydd y Datganiadau Polisi Cenedlaethol diweddaraf yn cael eu cymeradwyo gan Senedd y Deyrnas Unedig cyn eu mabwysiadu'n derfynol. Ar ôl mabwysiadu'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol diweddaraf, bydd Datganiad Ôl-fabwysiadu'r AoS yn cael ei gyhoeddi, a bydd hwn yn amlinellu sut mae canfyddiadau'r AoS diweddaraf a'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi cael eu hystyried. Bydd hefyd yn darparu rhagor o wybodaeth ynghylch sut y bydd y gwaith o fonitro effeithiau arwyddocaol gweithredu'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol diweddaraf yn cael ei wneud.

## Y broses a ddilynir ar gyfer Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd wedi’i ddiweddaru

Yng Nghymru a Lloegr, o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'i diwygiwyd), ynghyd â Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau Morol Alltraeth 2017 (gyda’i gilydd, ‘Rheoliadau Cynefinoedd’), mae’n ofynnol cynnal ‘Asesiad Priodol’ o gynlluniau neu brosiectau arfaethedig nad ydynt yn angenrheidiol ar gyfer rheoli safle cynefin ond sy’n debygol o gael effaith sylweddol ar un neu fwy o safleoedd cynefin naill ai’n unigol, neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill.

Mae safleoedd cynefin yn cynnwys Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig. Mae’r rhain fel arfer wedi’u dynodi ar gyfer rhywogaethau adar mudol prin, bregus a chyson a gwlyptiroedd sy’n bwysig ar lefel ryngwladol. Fel mater o bolisi’r Llywodraeth, mae safleoedd Ramsar rhestredig neu arfaethedig, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig posibl, darpar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a safleoedd sydd wedi’u nodi, neu sy’n ofynnol, fel mesurau gwneud iawn ar gyfer effeithiau niweidiol ar safleoedd cynefinoedd, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig posibl, darpar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a safleoedd rhestredig neu arfaethedig Ramsar, yn cael eu trin yn yr un ffordd â safleoedd Cynefin. O hyn ymlaen, cyfeirir at yr holl safleoedd uchod fel safleoedd cynefin.

Paratowyd adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd wedi’i ddiweddaru ar gyfer y Datganiadau Polisi Cenedlaethol diweddaraf (EN-1, EN-3 ac EN-5). Mae’n ystyried effeithiau posibl dynodi’r Datganiadau Polisi Cenedlaethol wedi’u diweddaru ar safleoedd cynefin.

## Y Fframwaith AoS wedi’i ddiweddaru

Mae sefydlu amcanion priodol a chwestiynau arweiniol (Fframwaith yr AoS) yn ganolog i’r broses arfarnu. Mae’n ffordd o alluogi asesiad cyson a systematig o effeithiau’r Datganiadau Polisi Cenedlaethol diweddaraf. Yn fras, mae’r amcanion yn cyflwyno’r canlyniadau cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol sy’n cael eu ffafrio. Mae’r rhain fel arfer yn cynnwys lleihau effeithiau niweidiol a gwella effeithiau cadarnhaol lle bo hynny’n berthnasol. Mae cwestiynau arweiniol hefyd yn cael eu datblygu ar gyfer pob un o’r amcanion er mwyn dangos sut maent yn berthnasol i ddatblygu seilwaith ynni a rhoi mwy o fanylion a ffocws i’r broses arfarnu. Mae’r cwestiynau’n archwilio effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol a rhai synergyddol a chronnus lle bo hynny’n briodol ar gyfer y gwahanol dechnolegau. Mae fframwaith yr AoS yn fersiwn o’r hyn a ddatblygwyd ar gyfer AoS blaenorol Datganiad Polisi Cenedlaethol Ynni, ac mae wedi cael ei ddiweddaru i adlewyrchu newidiadau i’r llinell sylfaen ac adolygiad o’r ddeddfwriaeth, y cynlluniau a’r polisïau diweddaraf yn ogystal â newidiadau mewn dulliau gweithredu o ran cynaliadwyedd a pholisi ynni.

Mae prif elfennau’r newid yn ymwneud â’r angen i adlewyrchu’r newid yng nghyfeiriad y polisi fel y nodir yn nogfen ymgynghori’r Datganiad Polisi Cenedlaethol. Mae’r rhain yn cynnwys Cynllun Gweithredu Pŵer Glân 2030, sy’n cyflymu’r gwaith o ddarparu pŵer adnewyddadwy a

charbon isel, ailgyflwyno ynni gwynt ar y tir i'r drefn NSIP, dull gweithredu'r Cynllun Rhwydwaith Strategol Canolog, Egwyddorion Dylunio Trawsyrru Trydan, diwygiadau i'r dull gweithredu ar gyfer Troi Gwastraff yn Ynni ac ati. Diweddarwyd y fframwaith hefyd i adlewyrchu egwyddorion yn well, fel osgoi niwed amgylcheddol, bod yn rhagofalus a gwreiddio diogelu'r amgylchedd, sy'n un o gonglfeini Deddf yr Amgylchedd 2021.

**Ar ben hynny, diwygiwyd rhai amcanion neu gwestiynau canllaw i roi mwy o eglurder ar rai agweddau neu i'w hegluro'n fwy cryno, er enghraifft er mwyn adlewyrchu derbynyddion yn well mewn perthynas â newid yn yr hinsawdd. Dylanwadwyd ar y fframwaith wedi'i ddiweddaru hefyd gan AoS diweddar a gynhaliwyd mewn perthynas â chynhyrchu niwclear newydd (EN-7 arfaethedig) a oedd hefyd yn edrych ar waelodlin gyfredol a chynlluniau a pholisïau diweddar. Tabl NTS-1: Y Fframwaith AoS wedi'i ddiweddaru**

| Rhif | Amcan yr AoS | Cwestiynau Arweiniol |
|---|---|---|
| 1 | Cyd-fynd â'r targed cenedlaethol i leihau allyriadau carbon i Sero Net erbyn 2050 | A fydd y Datganiadau Polisi Cenedlaethol yn cefnogi ...<br>• Lleihau allyriadau carbon y portffolio cenedlaethol ar gyfer seilweithiau ynni mawr?<br>• Lleihau allyriadau uniongyrchol ac anuniongyrchol o'r holl nwyon tŷ gwydr, gan gynnwys carbon deuocsid, yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu?<br>• Cyflenwi ynni o ffynonellau ynni adnewyddadwy/carbon isel / defnyddio ynni carbon isel/adnewyddadwy?<br>• Defnyddio dulliau tynnu carbon i wrthbwyso allyriadau gweddilliol o ynni fel Technolegau Allyriadau Negyddol (NET) ac Atebion sy'n Seiliedig ar Natur (NBS)?<br>• Creu systemau tynnu carbon/dalfeydd carbon newydd drwy dechnegau dal a storio naturiol, gan gynnwys drwy gynefinoedd naturiol, seilwaith gwyrdd-las a phriddoedd?<br>• Cefnogi system ynni sy'n gyson â lleihau allyriadau carbon i Sero Net erbyn 2050 a phwyslais hirdymor ar drydaneiddio Pŵer Glân 2030? |
| 2 | Sicrhau ein bod yn addasu cymaint ag y gallwn ac mor wydn â phosibl mewn perthynas ag asedau adeiledig, cymunedau | A fydd y Datganiad Polisi Cenedlaethol...<br>• Yn hybu'r gwaith o ddiogelu rhag effeithiau a risgiau newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol (e.e. llifogydd, lefel y môr yn codi, erydu arfordirol a newid mewn patrymau tywydd)? |

| Rhif | Amcan yr AoS | Cwestiynau Arweiniol |
|---|---|---|
| | a phobl, yn ogystal â chynefinoedd, rhywogaethau ac asedau naturiol, wrth i ni fynd i'r afael ag effeithiau niferus newid yn yr hinsawdd *<br><br>*Mae addasu'n ymwneud â chymryd camau i fyw gydag effeithiau newid yn yr hinsawdd, fel adeiladu waliau cei a rhwystrau llifogydd. Mae gwytnwch yn golygu gallu system i arsugno a dod at ei hun ar ôl digwyddiad niweidiol. | • Yn annog cynllun ar gyfer addasu'n llwyddiannus i'r newidiadau a ragwelir yn amodau'r tywydd ac amlder digwyddiadau tywydd eithafol (rhewi, tywydd poeth, stormydd dwys)?<br>• Yn mynd i'r afael â'r risgiau a achosir gan yr hinsawdd o fethiannau cronnus o rwydweithiau ynni â seilwaith rhyngddibynnol?<br>• Yn arwain at ddatblygu seilwaith mawr sy'n gallu gwrthsefyll llifogydd dros ei oes – gan ystyried effeithiau newid yn yr hinsawdd – heb gynyddu'r perygl o lifogydd mewn mannau eraill, a chanfod cyfleoedd i leihau'r risg yn gyffredinol?<br>• Yn osgoi datblygiadau amhriodol mewn ardaloedd lle mae perygl o lifogydd ac erydiad arfordirol?<br>• Yn rheoli'r perygl o lifogydd ac erydu arfordirol, yn enwedig drwy weithio gyda phrosesau naturiol?<br>• Yn sicrhau bod mesurau cydbwyso priodol ar waith pan nad oes dewis arall ond colli tiroedd o ardaloedd o orlifdir? |
| 3 | Gwella rhwydweithiau bioamrywiaeth ac ecolegol, sicrhau manteision net o ran bioamrywiaeth, diogelu a chefnogi gwytnwch yr ecosystem a'i swyddogaethau | A fydd y Datganiad Polisi Cenedlaethol...<br>• Yn diogelu ac yn gwella safleoedd sydd wedi'u dynodi'n genedlaethol fel Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, Parthau Cadwraeth Morol ac Ardaloedd Morol Dan Warchodaeth Ddwys, gan gynnwys safleoedd a allai gael eu dynodi a rhai sydd wedi'u cyflwyno am ddynodiad?<br>• Yn diogelu ac yn gwella cynefinoedd a phoblogaethau gwerthfawr o rywogaethau a warchodir/ rhywogaethau prin ar safleoedd sydd wedi'u dynodi'n lleol, gan gynnwys Safleoedd Bywyd Gwyllt Allweddol, Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol a Gwarchodfeydd Natur Lleol? |

| Rhif | Amcan yr AoS | Cwestiynau Arweiniol |
|---|---|---|
| | | • Yn diogelu strwythur a swyddogaeth/prosesau'r ecosystem, gan gynnwys yn yr amgylchedd morol?<br>• Yn diogelu a gwella'r Rhwydwaith Adfer Natur?<br>• Yn diogelu a gwella cynefinoedd â blaenoriaeth, cynefinoedd nad oes modd eu disodli a chynefin rhywogaethau â blaenoriaeth?<br>• Yn hyrwyddo'r dasg o greu neu adfer cynefinoedd newydd a chysylltiadau â chynefinoedd presennol?<br>• Yn diogelu ac yn gwella rhwydwaith y seilwaith gwyrdd a glas ehangach?<br>• Yn gwella gallu bioamrywiaeth i wrthsefyll effeithiau posibl newid yn yr hinsawdd?<br>• Yn lleihau neu'n mynd ati i osgoi effeithiau ar gynefinoedd sydd â rôl bwysig o ran dal a storio carbon?<br>• Yn hybu dyluniad sensitif neu natur gynhwysol mewn amgylcheddau daearol a morol?<br>• Yn sicrhau bod gweithgareddau ynni yn diogelu stoc pysgod a mamaliaid morol?<br>• Yn sicrhau nad yw gweithgareddau ynni yn amharu ar boblogaeth adar?<br>• Yn hyrwyddo elw net o ddim llai na 10% mewn bioamrywiaeth ar gyfer unrhyw ddatblygiad seilwaith mawr newydd?<br>• Yn gwella gallu bioamrywiaeth i wrthsefyll effeithiau posibl newid yn yr hinsawdd?<br>• Yn atal rhywogaethau goresgynnol rhag lledaenu (brodorol ac fel arall), gan gynnwys rhywogaethau goresgynnol newydd oherwydd newid yn yr hinsawdd? |
| 4 | Gwarchod a gwella safleoedd sydd wedi'u dynodi oherwydd eu pwysigrwydd rhyngwladol at | A fydd y Datganiad Polisi Cenedlaethol...<br>• Yn osgoi colli, neu achosi niwed anuniongyrchol i 'Safleoedd Cynefinoedd' (Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a safleoedd Ramsar), gan gynnwys rhai a allai gael eu |

| Rhif | Amcan yr AoS | Cwestiynau Arweiniol |
|---|---|---|
| | ddibenion gwarchod natur<br><br>*(yn gysylltiedig â phroses Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar wahân ar gyfer y Datganiad Polisi Cenedlaethol ar Ynni)* | dynodi (darpar Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig arfaethedig, Safleoedd o Bwysigrwydd Cymunedol a safleoedd Ramsar arfaethedig) ar y tir ac ar y môr?<br>• Yn cefnogi gwelliannau parhaus i statws cyflwr rhwydwaith safleoedd cenedlaethol y DU? |
| 5 | Diogelu a gwella asedau treftadaeth ddiwylliannol a'u safleoedd, ynghyd â'r amgylchedd hanesyddol ehangach | A fydd y Datganiad Polisi Cenedlaethol...<br>• Yn gwarchod ac yn gwella asedau treftadaeth dynodedig a'u safleoedd (Safleoedd Treftadaeth y Byd, Henebion Rhestredig, strwythurau ac Adeiladau Rhestredig, Parciau a Gerddi Cofrestredig, Meysydd Brwydr Cofrestredig ac Ardaloedd Cadwraeth), yn ogystal ag asedau morol fel llongddrylliadau gwarchodedig?<br>• Yn diogelu ac yn gwella asedau treftadaeth sydd heb eu dynodi a/neu sydd wedi'u rhestru'n lleol (gan gynnwys asedau treftadaeth ac archaeoleg sydd newydd eu darganfod) a'u safleoedd?<br>• Yn mynd i'r afael ag asedau treftadaeth sydd mewn perygl, neu eu diogelu rhag bygythiadau pellach?<br>• Yn osgoi niwed arwyddocaol i asedau treftadaeth, er enghraifft o ganlyniad i gynhyrchu sŵn, llygryddion ac ymyrraeth weledol?<br>• Yn sicrhau asesiadau archaeolegol priodol cyn datblygu?<br>• Yn cynnal neu'n gwella'r dehongliad, y ddealltwriaeth a'r gwerthfawrogiad o'r amgylchedd hanesyddol?<br>• Yn cynyddu mynediad y cyhoedd at asedau treftadaeth? |
| 6 | Gwarchod a gwella cymeriad ac ansawdd y tirweddau, y trefluniau a'r dyfrweddau a | A fydd y Datganiad Polisi Cenedlaethol...<br>• Yn osgoi datblygiadau mewn Parciau Cenedlaethol a Thirweddau Cenedlaethol (AHNE gynt)? |

| Rhif | Amcan yr AoS | Cwestiynau Arweiniol |
|---|---|---|
| | gwarchod a gwella amwynder gweledol | • Yn cefnogi uniondeb unrhyw ardaloedd sydd wedi'u dynodi am eu gwerth o ran tirwedd, gan gynnwys ar y cyd â darpariaethau unrhyw Gynllun Rheoli perthnasol (e.e. Parciau Cenedlaethol, Tirweddau Cenedlaethol, Arfordiroedd Treftadaeth a dynodiadau tirwedd lleol)?<br>• Yn gwarchod a gwella cymeriad neu amgylchoedd cynhenid tirweddau, trefluniau neu ddyfrweddau lleol?<br>• Yn lleihau llygredd sŵn a golau o waith adeiladu a gweithgareddau gwaith ar amwynder preswyl ac ar leoliadau sensitif, derbynyddion a golygfeydd?<br>• Yn atal gostyngiad mewn llonyddwch / cynnal llonyddwch?<br>• Yn gwarchod, diogelu a gwella asedau amgylcheddol naturiol (e.e. parciau a mannau gwyrdd, tir comin, coetiroedd / coedwigoedd ac ati) lle maent yn cyfrannu at ansawdd tirwedd a threflun? |
| 7 | Gwarchod a gwella amgylchedd dŵr | A fydd y Datganiad Polisi Cenedlaethol...<br>• Yn diogelu ansawdd dŵr daear, wyneb, morydol ac arfordirol yn unol â gofynion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a'r Fframwaith Strategaeth Forol?<br>• Yn arwain at newidiadau i ddosbarthiad a llif dŵr daear?<br>• Yn diogelu argaeledd adnoddau dŵr (dŵr wyneb a dŵr daear)?<br>• Yn defnyddio cyn lleied â phosibl o adnoddau dŵr?<br>• Yn diogelu uniondeb prosesau arfordirol a morydol?<br>• Yn lleihau gollyngiadau gweithredol a damweiniol i'r amgylchedd dŵr?<br>• Yn diogelu ansawdd gwely'r môr a'i waddodion, ac yn osgoi effeithiau arwyddocaol ar forffoleg gwely'r môr a phrosesau cludo gwaddodion? |
| 8 | Gwarchod a gwella ansawdd aer ar raddfa leol, ranbarthol, | A fydd y Datganiad Polisi Cenedlaethol...<br>• Yn lleihau allyriadau llwch a llygryddion aer eraill sy'n effeithio ar iechyd pobl neu ar fioamrywiaeth? |

| Rhif | Amcan yr AoS | Cwestiynau Arweiniol |
|---|---|---|
| | genedlaethol a rhyngwladol | • Yn gwella ansawdd aer mewn Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer ac osgoi'r angen am Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer newydd?<br>• Yn hyrwyddo gwelliannau i rwydweithiau seilwaith gwyrdd i helpu i wella ansawdd aer? |
| 9 | Diogelu adnoddau pridd, hyrwyddo'r defnydd o dir llwyd ac osgoi halogi tir | A fydd y Datganiad Polisi Cenedlaethol...<br>• Yn helpu i hwyluso'r dasg o ailddefnyddio tir a ddatblygwyd o'r blaen?<br>• Yn osgoi datblygu ar y tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas?<br>• Yn sicrhau bod adnoddau pridd yn cael eu diogelu, gan osgoi dirywiad mewn iechyd pridd drwy reoli ac ailddefnyddio pridd mewn ffordd gynaliadwy?<br>• Yn ceisio adfer tir halogedig?<br>• Yn lleihau ôl troed datblygiad (llawr caled) i leihau faint o bridd sy'n cael ei selio? |
| 10 | Diogelu, gwella a hyrwyddo geoamrywiaeth | A fydd y Datganiad Polisi Cenedlaethol...<br>• Yn gwarchod ac yn gwella adnoddau geoamrywiaeth?<br>• Yn gwarchod neu'n gwella Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig sydd wedi'u dynodi oherwydd eu budd daearegol?<br>• Yn osgoi diraddio a chael gwared ar Safle Geoamrywiaeth Pwysig y Rhanbarth (RIGS) lle bynnag y bo modd?<br>• Yn diogelu geoamrywiaeth ar y draethlin a'r dyfroedd morol?<br>• Yn cefnogi mynediad at geoamrywiaeth, a'r dasg o ddehongli a deall hynny? |
| 11 | Gwella iechyd, lles a diogelwch pob dinesydd a lleihau annhegwch ym maes iechyd | A fydd y Datganiad Polisi Cenedlaethol...<br>• Yn diogelu iechyd cymunedau drwy atal llygryddion rhag cael eu gollwng yn ddamweiniol, dod i gysylltiad |

| Rhif | Amcan yr AoS | Cwestiynau Arweiniol |
| --- | --- | --- |
| | | â meysydd trydanol a magnetig, cysgodion symudol neu ymbelydredd?<br>• Yn lleihau'r niwsans ar gymunedau a'u cyfleusterau cymaint â phosibl, er enghraifft sŵn, golau artiffisial, arogl, llwch, stêm, mwg a phlâu o bryfed?<br>• Yn arwain at golli tir hamdden ac amwynder neu golli mynediad atynt?<br>• Yn darparu ar gyfer cyfleusterau sy'n gallu hybu mwy o ryngweithio cymdeithasol a ffyrdd mwy egnïol o fyw a mwynhad o gefn gwlad a'r arfordir?<br>• Yn hyrwyddo mentrau sy'n gwella diogelwch a diogelwch personol i bawb? |
| 12 | Hyrwyddo trafnidiaeth gynaliadwy a lleihau effeithiau niweidiol ar y rhwydwaith trafnidiaeth strategol a tharfu cyn lleied â phosibl ar seilwaith a gwasanaethau sylfaenol | A fydd y Datganiad Polisi Cenedlaethol...<br>• Yn atal newidiadau niweidiol i seilwaith trafnidiaeth strategol fel ffyrdd/rheilffyrdd/meysydd awyr?<br>• Yn atal colli neu darfu ar wasanaethau a seilwaith sylfaenol (e.e. telegyfathrebu, trydan, nwy)?<br>• Yn hyrwyddo cludo nwyddau a phobl drwy ddulliau teithio carbon isel/di-garbon?<br>• Yn lleihau pellteroedd teithio i'r gwaith ac yn lleihau'r angen i allgymudo?<br>• Yn hwyluso gweithio gartref, gweithio o bell a busnesau yn y cartref? |
| 13 | Hyrwyddo economi gref gyda chyfleoedd i gymunedau lleol | A fydd y Datganiad Polisi Cenedlaethol...<br>• Yn cefnogi gwell diogelwch, dibynadwyedd a fforddiadwyedd y cyflenwad ynni cenedlaethol?<br>• Yn cefnogi creu swyddi dros dro a pharhaol a chynyddu sgiliau, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae angen?<br>• Yn cael effeithiau economaidd-gymdeithasol ehangach fel newidiadau i ddemograffeg, gwasanaethau cymunedol neu brisiau tai?<br>• Yn darparu seilwaith i gefnogi buddsoddiad economaidd yn yr economi leol? |

| Rhif | Amcan yr AoS | Cwestiynau Arweiniol |
|---|---|---|
| 14 | Hyrwyddo defnydd cynaliadwy o adnoddau ac asedau naturiol | A fydd y Datganiad Polisi Cenedlaethol...<br>• Yn lleihau defnydd o ddeunyddiau, ynni ac adnoddau?<br>• Yn hyrwyddo arferion rheoli gwastraff cynaliadwy yn unol â'r hierarchaeth gwastraff?<br>• Yn annog defnydd o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu a / neu ddeunyddiau eilaidd?<br>• Yn annog datblygu economi gylchol?<br>• Yn hyrwyddo defnydd o dechnolegau a deunyddiau carbon isel?<br>• Yn cynhyrchu sgil-gynhyrchion gwastraff y mae angen eu rheoli'n briodol?<br>• Yn hyrwyddo'r defnydd o gyflenwyr lleol sy'n defnyddio deunyddiau a gynhyrchir yn lleol ac sy'n dod o ffynonellau cynaliadwy? |

# 3. Y broses arfarnu

Cafodd polisïau'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol diweddaraf eu harfarnu fesul pwnc, gyda'r Datganiad Polisi Cenedlaethol cyffredinol ar gyfer ynni (EN-1) yn cael ei brofi yn erbyn pob un o 14 amcan yr AoS. Cynhaliwyd arfarniad o'r polisïau yn y Datganiadau Polisi Cenedlaethol diweddaraf ar dechnoleg yn erbyn detholiad o amcanion AoS yn unig, gan adlewyrchu effeithiau nad ydynt yn generig sy'n gysylltiedig â'r technolegau.

Cynhaliwyd yr arfarniad yn unol â'r meini prawf a nodir yn Atodiad II o ganllawiau Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (ODPM). Wrth ragweld effeithiau, nodir newidiadau i'r llinell sylfaen a fyddai'n digwydd o ganlyniad i roi'r Datganiad Polisi Cenedlaethol ar waith. Mae'r newidiadau hyn wedyn yn cael eu disgrifio (lle bo modd) o ran eu graddfa ddaearyddol, eu hamserlen, a fyddai'r effeithiau'n rhai dros dro ynteu'n barhaol, yn gadarnhaol ynteu'n negyddol, yn debygol ynteu'n annhebygol, yn rheolaidd ynteu'n brin, gan nodi hefyd a ydynt yn rhai eilaidd, cronnus ynteu synergyddol.

Nid oes gwybodaeth feintiol ar gael i helpu gyda'r gwaith rhagfynegi yn y rhan fwyaf o achosion. Mewn achosion o'r fath, rhagwelwyd yr effeithiau gan ddefnyddio barn broffesiynol a drwy gyfeirio at ddeddfwriaeth a rheoliadau perthnasol, ynghyd â data sylfaenol. Rhagwelwyd arwyddocâd yr effeithiau tebygol yn ôl y pum categori a nodir yn y tabl canlynol:

**Tabl NTS-2: Allwedd i arfarnu arwyddocâd yr effeithiau a ragwelir**

| **Effeithiau arwyddocaol tebygol** | | |
|---|---|---|
| Effaith gadarnhaol arwyddocaol yn debygol | **+++** | Disgwylir i'r polisi fynd i'r afael â phroblem gynaliadwyedd sy'n bodoli'n barod (er enghraifft, llygredd aer) neu ddarparu gwelliannau i gynaliadwyedd, fel cynnydd net amgylcheddol sylweddol uwchlaw'r polisi presennol/y polisi sydd ar y gweill. |
| Effaith gadarnhaol fach yn debygol | **+** | Disgwylir i'r polisi arwain at enillion net amgylcheddol yn unol â pholisi presennol neu bolisi newydd y Llywodraeth NEU arwain at ddiogelu a gwarchod ased cynaliadwyedd (er enghraifft, safle bioamrywiaeth dynodedig neu ased treftadaeth dynodedig). |
| Dim effaith yn debygol neu ddim yn berthnasol | **0** | Nid oes disgwyl unrhyw effeithiau, neu nid yw'r amcan yn berthnasol i'r rhan o'r Datganiad Polisi Cenedlaethol sy'n cael ei hasesu. |
| Effaith negyddol fach yn debygol | **-** | Disgwylir i'r polisi arwain at effeithiau niweidiol llai sylweddol neu ar raddfa lai, a gellir lliniaru'r rhain drwy fesurau safonol ac arferion gorau. |
| Effaith negyddol arwyddocaol yn debygol | **--** | Disgwylir i'r polisi arwain at effeithiau niweidiol mwy, na ellir eu lliniaru, NEU bydd angen datrysiadau lliniaru helaeth a phwrpasol (efallai y bydd angen astudiaethau pellach i ddod o hyd i atebion priodol). |

Cynhaliwyd AoS o opsiynau strategol rhesymol eraill hefyd ar gyfer gweithredu nodau'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol. Er mwyn cadw'r AoS ar lefel sy'n gymesur â lefel y manylder yn y Datganiad Polisi Cenedlaethol, aseswyd yr opsiynau strategol eraill ar lefel uwch na Fframwaith yr AoS drwy ddefnyddio chwe thema datblygu cynaliadwy. Nodwyd y rhain drwy gyfuno amcanion yr AoS yn bynciau a oedd yn adlewyrchu nodweddion strategol yr opsiynau'n well.

**Tabl NTS-3: Themâu datblygu cynaliadwy ac Amcanion yr AoS**

| Prif Thema Datblygu Cynaliadwy | Amcanion AoS / Asesiad Amgylcheddol Strategol (niferoedd yn cyfeirio at Amcan yr AoS) |
|---|---|
| Newid yn yr hinsawdd | Sero Net (1) |
| Diogelwch y cyflenwad ynni | Iechyd (11), Economi (13) |
| Iechyd a lles | Ansawdd Aer (8), Iechyd (11) |
| Yr economi | Iechyd (11), Economi (13), Adnoddau (14) |
| Yr amgylchedd adeiledig | Trafnidiaeth (12), Treftadaeth (5), Addasu a Gwytnwch (2), Tirweddau a Threfluniau (6) |
| Yr amgylchedd naturiol | Addasu a Gwytnwch (2), Bioamrywiaeth (3 a 4), Treftadaeth (5), Tirweddau a Threfluniau (6), Dŵr (7), Priddoedd (9), Geoamrywiaeth (10) |

Sylwch, wrth ystyried Opsiynau Amgen, fod yr asesiad yn cael ei gynnal drwy gymharu â'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol diweddaraf. Mae canfyddiadau'r AoS mewn perthynas â'r EN-1 diweddaraf yn berthnasol fwy neu lai i'r holl opsiynau amgen. Y gwahaniaethydd allweddol yw cynhwysiant neu absenoldeb technolegau penodol a chanlyniadau cymharol cynhwysiant neu absenoldeb o'r fath.

Er mwyn cymharu'r Opsiynau Amgen ar lefel eang, defnyddir y raddfa ganlynol:

**Tabl NTS-4: Graddfa Wahaniaethol ar gyfer Opsiynau Amgen**

| Maint | Disgrifiad |
|---|---|
| Cadarnhaol Iawn | Rhagwelir canlyniad cadarnhaol gwahanol iawn o'i gymharu ag EN-1* |
| Cadarnhaol | Rhagwelir canlyniad mwy cadarnhaol o'i gymharu ag EN-1* |
| Niwtral | Rhagwelir y bydd yr opsiwn amgen hwn yn cael yr un canlyniad ag EN-1* |
| Negyddol | Rhagwelir canlyniad mwy negyddol o'i gymharu ag EN-1* |
| Negyddol Iawn | Rhagwelir canlyniad negyddol gwahanol iawn o'i gymharu ag EN-1* |

*EN-2 i EN-5 ar gyfer AoS sy'n ymwneud yn benodol â thechnoleg

# 4. Crynodeb o brif ganfyddiadau'r AoS ar gyfer EN-1

Darparodd tîm yr AoS argymhellion ar gyfer egluro a chryfhau'r Datganiad Polisi Cenedlaethol diweddaraf. Trafodwyd y rhain â thîm datblygu Datganiadau Polisi Cenedlaethol mewn ffordd ailadroddol er mwyn gwella'r canlyniad bob tro, gan ystyried opsiynau eraill yr un pryd. Dyma brif ganfyddiadau effeithiau cynaliadwyedd perthnasol EN-1 a thechnoleg (sy'n ymwneud ag EN-3 ac EN-5). Roedd yr AoS ar gyfer EN-3 ac EN-5 yn nodi effeithiau niweidiol penodol ychwanegol heb fod yn generig, a oedd yn gysylltiedig â thechnolegau unigol, ar ben y rheini yn EN-1.

Sylwch, ar gyfer pob asesiad, mae ansicrwydd ynghylch union lefel yr effaith gan y bydd hyn yn dibynnu ar union natur y seilwaith ynni a'r ardal y bydd yn cael ei leoli ynddi.

**Canfyddiadau'r AoS ar gyfer EN-1: Datganiad Polisi Cenedlaethol Cyffredinol ar Ynni**

Mae'r canlynol yn nodi prif ganfyddiadau'r AoS ar gyfer yr EN-1 diweddaraf.

- Bydd y Datganiadau Polisi Cenedlaethol ar ynni yn dal i fod yn drawsnewidiol wrth alluogi Cymru a Lloegr i bontio i economi carbon isel, gan helpu i wireddu ymrwymiadau Sero Net y DU yn gynt na'r hyn fyddai'n digwydd o dan y system gynllunio bresennol. Fodd bynnag, mae rhywfaint o ansicrwydd hefyd ynghylch union lefel y trawsnewid. Er bod Pŵer Glân 2030 yn rhoi mwy o eglurder ynghylch sut mae'r llywodraeth yn gweld y seilwaith ynni'n datblygu, mae'n dal yn anodd rhagweld y cymysgedd o dechnoleg a fydd yn cael ei ddarparu gan y farchnad yn erbyn y fframwaith a osodwyd gan y Llywodraeth, a chyfraniad popeth gyda'i gilydd.
- Mae'n bwysig cydnabod y bydd Datganiadau Polisi Cenedlaethol ar ynni yn dal i arwain at gynhyrchu allyriadau carbon gweddilliol (oherwydd bod rhai o'r technolegau arfaethedig yn allyrwyr) a bydd angen mynd i'r afael â'r allyriadau carbon hyn os am gyflawni targed y Llywodraeth o Sero Net erbyn 2050. Hefyd, mae rhywfaint o newid hinsawdd yn anochel, ac o'r herwydd, mae angen i seilwaith ynni allu bod yn gryf yn wyneb newid hinsawdd – mae'r Datganiad Polisi Cenedlaethol, yn enwedig yn EN-1, yn dal i nodi dull clir a chadarn o sicrhau bod hyn yn cael ei wneud.
- Mae'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol ar ynni yn debygol o barhau i gyfrannu'n gadarnhaol ac yn gynyddol tuag at wella bywiogrwydd a chystadleurwydd marchnad ynni'r DU drwy ddarparu mwy o eglurder i ddatblygwyr. Dylai hyn wella diogelwch cyflenwad y DU ac – yn llai uniongyrchol efallai drwy gynnig mwy o gyfleoedd economaidd i gymunedau lleol – dylai gael effeithiau cadarnhaol ar iechyd a lles yn y tymor canolig i'r tymor hwy drwy helpu i sicrhau cyflenwadau fforddiadwy o ynni a lleihau tlodi tanwydd. Fodd bynnag, dylid cydnabod, mewn termau iechyd, fod potensial i'r effeithiau barhau i gael eu dosbarthu'n anghymesur ar lefel leol, gyda grwpiau agored

i niwed o bosibl yn agored i effeithiau. Serch hynny, bydd modd mynd i’r afael â’r materion hyn pan fydd manylion cynlluniau a’u lleoliad yn hysbys.

- Mae datblygu seilwaith ynni newydd a gefnogir gan y Datganiadau Polisi Cenedlaethol ar ynni diweddaraf, ar y raddfa a’r cyflymder sy’n ofynnol i ddiwallu’r angen presennol a’r angen yn y dyfodol, yn debygol o barhau i gael rhai mân effeithiau negyddol, a allai fod yn gronnus, ar dreftadaeth ddiwylliannol, yr amgylchedd dŵr, ansawdd aer, priddoedd a geoamrywiaeth efallai. Mae hyn yn adlewyrchiad anochel o natur y seilwaith mawr hwn, yr ‘ôl troed’, y gofynion o ran deunyddiau ac adnoddau, yn ogystal â’r gweithgareddau adeiladu sy’n gysylltiedig â datblygu’r asedau hyn.
- Mae’n debygol y bydd effeithiau negyddol o hyd yn gysylltiedig â gwaith adeiladu tymor byr (seilwaith ynni newydd a gefnogir gan y Datganiadau Polisi Cenedlaethol ar ynni) gan y bydd mwy o ddefnydd o adnoddau a deunyddiau crai, ynghyd â newidiadau i ddefnydd presennol o dir a môr, a allai effeithio ar yr economi leol. Yn gyffredinol, dylai fod yn bosibl mynd ati'n foddhaol i liniaru effeithiau negyddol posibl mwyaf arwyddocaol seilwaith ynni newydd sydd wedi cael caniatâd yn unol â’r Datganiadau Polisi Cenedlaethol ar ynni, ac maent yn egluro ffyrdd o wneud hyn.
- Oherwydd natur a maint cynlluniau seilwaith posibl (yn ogystal â lleoliadau posibl sy’n debygol, er enghraifft mewn ardaloedd arfordirol), hyn a hyn o gyfleoedd fydd ar gael i liniaru’r dirwedd o hyd. Er bod Datganiadau Polisi Cenedlaethol ar ynni, ac EN-1 yn benodol, yn nodi dull cadarn o fynd i’r afael ag effeithiau ar dirweddau, trefluniau a morweddau ar draws yr amserlenni byr, canolig a hir, mae effeithiau niweidiol arwyddocaol ac effeithiau cronnus posibl yn debygol o aros.
- Mae potensial y bydd effeithiau negyddol sylweddol, gan gynnwys effeithiau cronnus, ar fioamrywiaeth yn dal i godi o weithgareddau adeiladu a gweithredu sy'n deillio o gynlluniau seilwaith Datganiadau Polisi Cenedlaethol ar ynni. Fodd bynnag, oherwydd y posibilrwydd o wella’r amgylchedd naturiol a sicrhau enillion net o ran bioamrywiaeth fel rhan o gynlluniau o’r fath, mae potensial hefyd i gael llawer o effeithiau cronnus cadarnhaol ar fioamrywiaeth yn y tymor canolig i’r tymor hir.

Ar wahân i allyriadau carbon sy’n arwain at effeithiau negyddol cronnus ar lefel fyd-eang pan fyddant yn cyrraedd yr atmosffer, mae’n debygol y bydd effeithiau negyddol cronnus yn dal i gael eu teimlo’n bennaf ar y raddfa ranbarthol neu isranbarthol, a hynny ar fioamrywiaeth, tirwedd, ansawdd dŵr ac aer, adnoddau dŵr, perygl llifogydd, newid arfordirol a lefelau iechyd, yn dibynnu ar leoliad a maint y clystyru sy'n berthnasol i ynni newydd a seilweithiau eraill. Bydd datblygiadau ynni arfaethedig yn dal yn destun asesiadau ar lefel prosiect, gan gynnwys Asesiad o’r Effaith Amgylcheddol, a bydd hyn yn mynd i’r afael ag effeithiau sy’n benodol i leoliad. Mae’r Datganiadau Polisi Cenedlaethol ar ynni yn nodi mesurau lliniaru ar gyfer effeithiau negyddol cronnus drwy fynnu bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn ystyried yr effeithiau i gyd gyda’i gilydd wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau unigol am ganiatâd datblygu.

**Tabl NTS-5: Crynodeb o'r Prif Ganfyddiadau ar gyfer EN-1 wedi'i ddiweddaru**

| **Amcan yr AoS** | **Amserlenni** | | |
|---|---|---|---|
| | Tymor Byr | Tymor Canolig | Tymor Hir |
| 1. Cyd-fynd â'r targed cenedlaethol i leihau allyriadau carbon i Sero Net erbyn 2050 | **- / +** | **- / ++** | **++** |
| 2. Sicrhau ein bod yn addasu cymaint ag y gallwn ac mor wydn â phosibl mewn perthynas ag asedau adeiledig, cymunedau a phobl, yn ogystal â chynefinoedd, rhywogaethau ac asedau naturiol, wrth i ni fynd i'r afael ag effeithiau niferus newid yn yr hinsawdd | **+** | **++** | **++** |
| 3. Gwella rhwydweithiau bioamrywiaeth ac ecolegol, sicrhau manteision net o ran bioamrywiaeth, diogelu a chefnogi gwytnwch yr ecosystem a'i swyddogaethau | **--** | **-- / ++** | **-- / ++** |
| 4. Gwarchod a gwella safleoedd sydd wedi'u dynodi oherwydd eu pwysigrwydd rhyngwladol at ddibenion gwarchod natur | **--** | **--** | **--** |
| 5. Diogelu a gwella asedau treftadaeth ddiwylliannol a'u safleoedd, ynghyd â'r amgylchedd hanesyddol ehangach | **-** | **-** | **-** |
| 6. Gwarchod a gwella cymeriad ac ansawdd y tirweddau, y trefluniau a'r dyfrweddau a gwarchod a gwella amwynder gweledol | **--** | **--** | **--** |
| 7. Gwarchod a gwella amgylchedd dŵr | **-** | **-** | **-** |
| 8. Gwarchod a gwella ansawdd aer ar raddfa leol, ranbarthol, genedlaethol a rhyngwladol | **-** | **-** | **-** |
| 9. Diogelu adnoddau pridd, hyrwyddo'r defnydd o dir llwyd ac osgoi halogi tir | **-** | **-** | **-** |
| 10. Diogelu, gwella a hyrwyddo geoamrywiaeth | **-** | **-/+** | **-/+** |
| 11. Gwella iechyd, lles a diogelwch pob dinesydd a lleihau annhegwch ym maes iechyd | **+** | **+** | **+** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 12. Hyrwyddo trafnidiaeth gynaliadwy a lleihau effeithiau niweidiol ar y rhwydwaith trafnidiaeth strategol a tharfu cyn lleied â phosibl ar seilwaith a gwasanaethau sylfaenol | **-** | **+** | **+** |
| 13. Hyrwyddo economi gref gyda chyfleoedd i gymunedau lleol | **- / ++** | **++** | **++** |
| 14. Hyrwyddo defnydd cynaliadwy o adnoddau ac asedau naturiol | **-** | **0** | **0 / +** |

Fel sy’n ofynnol gan Reoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol, mae asesiad o opsiynau amgen rhesymol hefyd wedi cael ei gynnal mewn perthynas â’r EN-1 wedi’i ddiweddaru. Yr opsiynau eraill a aseswyd yn erbyn EN-1 wedi'i ddiweddau oedd:

**Tabl NTS-6: Cynllun ac opsiynau amgen a ystyriwyd ar gyfer EN-1**

| **Cynllun / Opsiwn Amgen** | **Trosolwg o dechnolegau** |
|---|---|
| EN-1 | Mae EN-1 yn cyfuno seilwaith a nodir ym Mhennod 3 y Datganiad Polisi Cenedlaethol hwn. Yn gryno: Ynni Adnewyddadwy (gan gynnwys Ynni Solar, Gwynt, Biomas ac Ynni o Wastraff gyda CCS), cynhyrchu trydan sy’n llosgi Nwy Naturiol gyda CCS neu hebddo, cynhyrchu trydan sy’n llosgi hydrogen, Storio Hydro wedi’i Bwmpio, Niwclear, seilwaith rhwydwaith trydan cysylltiedig, a nwy naturiol, olew, hydrogen a seilwaith CCS. |
| Opsiwn Amgen 1 (A1) | Fel EN-1 heb Niwclear na Nwy Naturiol heb Systemau Rheoli Carbon |
| Opsiwn Amgen 2 (A2) | Fel EN-1 heb Nwy Naturiol Heb Systemau Rheoli Carbon |
| Opsiwn Amgen 3 (A3) | Fel EN-1 heb Niwclear |

Sylwch fod EN-1 wedi’i ddiweddaru yn ychwanegu Ynni Gwynt ar y Tir at y technolegau ac yn nodi na all Troi Gwastraff yn Ynni fod heb systemau rheoli carbon mwyach.

**Tabl NTS-7: Crynodeb o ganfyddiadau’r AoS ar gyfer Opsiynau Amgen i EN-1**

| **Prif Themâu Datblygu Cynaliadwy** | **EN-1** | **Opsiwn Amgen A1** | **Opsiwn Amgen A2** | **Opsiwn Amgen A3** |
|---|---|---|---|---|
| Newid hinsawdd (Sero Net) | | Cadarnhaol Iawn | Cadarnhaol Iawn | Negyddol |
| Diogelwch y cyflenwad ynni | | Negyddol Iawn | Negyddol | Negyddol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Iechyd a lles | | Niwtral | Niwtral | Niwtral |
| Yr economi | | Niwtral | Niwtral | Niwtral |
| Yr amgylchedd adeiledig | | Cadarnhaol / Negyddol | Negyddol | Negyddol |
| Yr amgylchedd naturiol | | Negyddol | Negyddol | Negyddol |

Dyma'r prif wahaniaethau rhwng y gwahanol opsiynau amgen a'r EN-1 wedi'i ddiweddaru:

**Opsiwn Amgen A1: Fel mae wedi'i ddiweddaru, byddai'r canlynol yn berthnasol i EN-1 heb Niwclear na Nwy Naturiol heb Systemau Rheoli Carbon:**

- o fudd sylweddol i gyflawni Sero Net oherwydd nad oes dim allyriadau o nwy heb systemau rheoli carbon, ond yn dibynnu ar grŵp llai o dechnolegau carbon isel;
- effaith negyddol sylweddol ar ddiogelwch y cyflenwad gan ei fod yn dibynnu ar dechnolegau sy'n dal i gael eu datblygu fel Storio Ynni a Hydrogen ar raddfa fawr i sicrhau'r cyflenwad brig a chynnal sefydlogrwydd a diogelwch y system drydan;
- dim effeithiau gwahaniaethol ar yr economi nac ar iechyd pobl (o'i gymharu ag EN-1 wedi'i ddiweddaru) oherwydd y darperir ar gyfer amrywiaeth o ffynonellau ynni isel i ddiwallu anghenion ynni yn y dyfodol, yn ogystal ag ysgogiad economaidd a gwell cyfleoedd cyflogaeth, er y gallai rhai effeithiau negyddol godi o ganlyniad i darfu ar ddiwydiannau / cymunedau presennol;
- cyfuniad o effeithiau manteisiol a negyddol ar yr amgylchedd adeiledig a naturiol: effeithiau cadarnhaol ar yr amgylchedd, er enghraifft drwy liniaru'r newid yn yr hinsawdd, ond yn negyddol oherwydd yr ardaloedd mawr o dir a môr sydd eu hangen ar gyfer ynni adnewyddadwy.

**Opsiwn Amgen A2: Fel mae wedi'i ddiweddaru, byddai'r canlynol yn berthnasol i EN-1 heb Nwy Naturiol heb Systemau Rheoli Carbon:**

- o fudd sylweddol i gyflawni Sero Net oherwydd nad oes allyriadau o nwy heb systemau rheoli carbon;
- effeithiau niweidiol ar Ddiogelwch y Cyflenwad, oherwydd er y byddai'n llai dibynnol (nag opsiwn amgen A1) ar dechnolegau sydd heb eu profi'n llawn eto, fel Storio Ynni a Hydrogen ar raddfa fawr, byddai dal angen iddynt sicrhau cyflenwad brig a chynnal sefydlogrwydd a diogelwch y system drydan;
- niwtral (o'i gymharu ag EN-1 wedi'i ddiweddaru) o ran manteision i themâu Datblygu Cynaliadwy mewn perthynas ag Iechyd a Lles a'r Economi drwy ddarparu ar gyfer amrywiaeth o ffynonellau ynni isel i ddiwallu anghenion ynni yn y dyfodol, yn ogystal ag ysgogiad economaidd a gwell cyfleoedd cyflogaeth, er y gallai fod costau economaidd a chymunedol ar raddfa leol hefyd;

- effaith negyddol ar yr Amgylchedd Adeiledig a Naturiol oherwydd efallai y bydd defnyddio mwy o Nwy Naturiol CCS (o'i gymharu ag EN-1 wedi'i ddiweddaru) yn gofyn am fwy o dir oherwydd yr angen cysylltiedig am seilwaith CCS.

**Opsiwn Amgen A3: Fel mae wedi'i ddiweddaru, byddai'r canlynol yn berthnasol i EN-1 heb Niwclear:**

- effeithiau niweidiol sylweddol ar gyflawni Sero Net oherwydd bod mwy o allyriadau parhaus o nwy heb systemau rheoli carbon;
- effeithiau niweidiol ar Ddiogelwch y Cyflenwad oherwydd dibyniaeth ar ystod lai o dechnolegau cynhyrchu trydan;
- niwtral o ran Iechyd a Lles a'r Economi drwy ddarparu ar gyfer amrywiaeth o ffynonellau ynni isel i ddiwallu anghenion ynni yn y dyfodol, yn ogystal ag ysgogiad economaidd a gwell cyfleoedd cyflogaeth, er y byddai costau economaidd a chymunedol yn bosibl ar raddfa leol hefyd;
- effeithiau niweidiol ar yr Amgylchedd Adeiledig oherwydd defnydd ychwanegol o dir gan ynni gwynt a solar adnewyddadwy a lleoliadau ger arfordiroedd, aberoedd neu afonydd gan Nwy Naturiol (gyda CCS neu heb CCS), gan effeithio ar y perygl o lifogydd; a
- effeithiau niweidiol ar yr Amgylchedd Naturiol gan y byddai'r pwyslais ar Ynni Adnewyddadwy a Nwy Naturiol gyda CCS yn golygu'r angen am ardaloedd mwy (ar dir ac ar y môr) i fodloni'r un allbwn ynni ag EN-1 wedi'i ddiweddaru.

Nid yw'r opsiynau amgen hyn cystal nac yn well na'r cynigion yn EN-1 wedi'i ddiweddaru, felly'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio gan y llywodraeth yw bwrw ymlaen â Datganiad Polisi Cenedlaethol diweddaraf EN-1 ar Ynni, a'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol diweddaraf sy'n benodol i dechnoleg, EN-3 ac EN-5 (gweler yr adrannau canlynol).

# 5. Canfyddiadau'r AoS ar gyfer EN-3 wedi'i ddiweddaru – Seilwaith Ynni Adnewyddadwy

Dyma brif bwyntiau'r AoS ar gyfer EN-3 wedi'i ddiweddaru (AoS-3):

- Mae datblygiadau seilwaith ynni adnewyddadwy yn cael effeithiau tebyg i fathau eraill o seilwaith ynni sy'n cyfateb i lawer o'r effeithiau strategol a nodwyd ar gyfer EN-1. Bydd angen tir ar gyfer ynni solar, biomas neu ynni o gyfleusterau gwastraff, yn ogystal â gwynt ar y tir, ac o'r herwydd gallai hyn arwain at ystod eang o effeithiau ar y tir. Bydd ynni gwynt ar y môr hefyd yn effeithio ar amgylcheddau morol ac arfordirol.
- Ystyriwyd effeithiau heb fod yn generig sy'n gysylltiedig â manylion ychwanegol am y Technolegau yn EN-3 wedi'i ddiweddaru ar gyfer wyth amcan AoS (Allyriadau Carbon, Bioamrywiaeth, Amgylchedd Dŵr, Tirwedd / Morwedd, Ansawdd Aer, Iechyd, yr Economi ac Adnoddau). Canfuwyd bod yr effeithiau nad ydynt yn generig yn dal i fod yn gyffredinol negyddol ar draws y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir, er bod rhai elfennau cadarnhaol o ran iechyd a'r angen i hyrwyddo defnyddio adnoddau ac asedau naturiol mewn ffordd gynaliadwy.
- Mae cysondeb â'r targed cenedlaethol o leihau allyriadau carbon i Sero Net erbyn 2050 wedi newid a bellach yn cael ei ystyried yn bwynt negyddol bychan yn y tymor byr a'r tymor canolig ar gyfer EN-3 wedi'i ddiweddaru, gan adlewyrchu allyriadau gweddilliol o orsafoedd biomas a'r diweddariadau sy'n mynnu bod gorsafoedd troi gwastraff yn ynni yn cynnwys CCR yn y tymor byr i ganolig, ac yna effeithiau niwtral yn y tymor hir wrth i orsafoedd CCR gael CCS neu wrth i orsafoedd newydd gael eu hadeiladu â CCS.
- Mae effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth yn debygol o barhau i ddigwydd gyda phob prosiect cynhyrchu ynni adnewyddadwy sy'n cael sylw yn EN-3 wedi'i ddiweddaru, a gallai rhai ohonynt fod yn sylweddol. Mae hyn yn cynnwys effeithiau ar bysgod; cynefinoedd a rhywogaethau ar wely'r môr, gan gynnwys rhai rhynglanwol ac islanwol; mamaliaid morol; ac adar o ffermydd gwynt mewn amgylcheddau daearol a morol. Ar y tir, gallai cynefinoedd gael eu colli neu eu newid hefyd o ganlyniad i glirio tir a chywasgu pridd; a/neu adeiladu seilwaith; a pheryglu ansawdd dŵr sy'n effeithio ar fflora a ffawna dŵr o amrywiaeth o dechnolegau ynni adnewyddadwy.
- Gall effeithiau penodol cadarnhaol sy'n gysylltiedig â'r technolegau barhau i ddigwydd ar y diwydiant pysgota o ffermydd gwynt ar y môr sy'n gweithredu fel meithrinfeydd pysgod; ar fioamrywiaeth o ffermydd solar, lle nad yw tir yn cael ei reoli'n ddwys rhagor; ar fioamrywiaeth o gynlluniau storfa hydro sy'n cael ei bwmpio, o ganlyniad i greu cynefinoedd ac ailstocio pysgod; ar fioamrywiaeth o Ffermydd Gwynt ar y tir (lle mae cyfleoedd yn cael eu cymryd i wella, fel y nodir yn EN-3 wedi'i ddiweddaru) ac ar adnoddau lle gellir adfer ac ailddefnyddio gweddillion o weithfeydd biomas yn hytrach na'u hanfon i safleoedd tirlenwi. Rhagwelir hefyd y bydd cynhyrchu ynni adnewyddadwy

yn parhau i gynnig cyfleoedd economaidd i gymunedau lleol ac yn dwyn budd i'r economi ehangach.

Mae'r EN-1 diweddaraf (sy'n cael ei lywio gan AoS-1 wedi'i ddiweddaru) yn cynnwys mesurau lliniaru helaeth i sicrhau bod yr effeithiau hyn yn cael eu hystyried gan ymgeiswyr a'r Arolygiaeth Gynllunio wrth baratoi ceisiadau a phenderfynu arnynt. Mae EN-3 wedi'i ddiweddaru (sy'n cael ei lywio gan AoS-3 wedi'i ddiweddaru) yn cynnwys amrywiaeth o fesurau lliniaru penodol, ynghyd â'r rheini a gynigir yn EN-1 wedi'i ddiweddaru, sy'n ceisio mynd i'r afael â'r ystod o effeithiau negyddol nad ydynt yn generig. Mewn rhai achosion, fel ar gyfer effeithiau sŵn, sydd wedi'u cynnwys o dan amcan yr AoS ar Iechyd, cydnabyddir efallai na fydd modd lliniaru'r effaith yn llwyr. Yn gyffredinol, ystyrir y bydd effeithiau negyddol gweddilliol ond ansicr yn parhau ar gyfer yr amcanion AoS sy'n cael eu hystyried. Fodd bynnag, dylid nodi bod gan y technolegau hyn rôl bwysig i'w chwarae fel rhan o'r dasg o ddiwallu anghenion ynni'r DU a chefnogi'r gwaith o gyflawni targed sero net y DU. Yn wir, mae EN-3 yn nodi y gallai manteision cyflawni'r targed hwn fod yn fwy na rhai o'r effeithiau negyddol.

**Tabl NTS-8: Crynodeb o brif ganfyddiadau'r AoS – Biomas a throi gwastraff yn ynni**

| **Amcan yr AoS** | **Asesiad o effeithiau heb fod yn generig (yn ôl amserlen)** | | |
|---|---|---|---|
| | Tymor Byr | Tymor Canolig | Tymor Hir |
| Cyd-fynd â'r targed cenedlaethol i leihau allyriadau carbon i Sero Net erbyn 2050 | **-** | **-** | **0** |
| Gwarchod a gwella cymeriad ac ansawdd y tirweddau, y trefluniau a'r dyfrweddau a gwarchod a gwella amwynder gweledol | **-** | **-** | **-** |
| Gwarchod a gwella ansawdd aer ar raddfa leol, ranbarthol, genedlaethol a rhyngwladol | **-** | **-** | **-** |
| Gwella iechyd, lles a diogelwch pob dinesydd a lleihau annhegwch ym maes iechyd | **-** | **-** | **-** |
| Hyrwyddo defnydd cynaliadwy o adnoddau ac asedau naturiol | **-/+** | **-/+** | **-/+** |

Sylwch fod asesiad yr AoS wedi newid ar gyfer yr amcan hwn oherwydd y newidiadau polisi sy'n ymwneud â Throi Gwastraff yn Ynni a drafodwyd yn flaenorol, gan wella cysondeb â'r targed sero net cenedlaethol.

**Tabl NTS-9: Crynodeb o brif ganfyddiadau'r AoS – Gwynt ar y môr**

| **Amcan yr AoS** | **Asesiad o effeithiau heb fod yn generig (yn ôl amserlen)** | | |
|---|---|---|---|
| | Tymor Byr | Tymor Canolig | Tymor Hir |
| Gwella rhwydweithiau bioamrywiaeth ac ecolegol, sicrhau manteision net o ran bioamrywiaeth, diogelu a chefnogi gwytnwch yr ecosystem a'i swyddogaethau | **-** | **-** | **-** |
| Gwarchod a gwella cymeriad ac ansawdd y tirweddau, y trefluniau a'r dyfrweddau a gwarchod a gwella amwynder gweledol | **-** | **-** | **-** |
| Hyrwyddo economi gref gyda chyfleoedd i gymunedau lleol | **-/+** | **-/+** | **-/+** |

**Tabl NTS-10: Crynodeb o brif ganfyddiadau'r AoS – Hydro sy'n cael ei Bwmpio**

| **Amcan yr AoS** | **Asesiad o effeithiau heb fod yn generig (yn ôl amserlen)** | | |
|---|---|---|---|
| | Tymor Byr | Tymor Canolig | Tymor Hir |
| Gwella rhwydweithiau bioamrywiaeth ac ecolegol, sicrhau manteision net o ran bioamrywiaeth, diogelu a chefnogi gwytnwch yr ecosystem a'i swyddogaethau | **-** | **-/+** | **-/+** |
| Gwarchod a gwella cymeriad ac ansawdd y tirweddau, y trefluniau a'r dyfrweddau a gwarchod a gwella amwynder gweledol | **-** | **-** | **-** |
| Gwella iechyd, lles a diogelwch pob dinesydd a lleihau annhegwch ym maes iechyd | **--** | **--** | **-** |
| Hyrwyddo economi gref gyda chyfleoedd i gymunedau lleol | **-/+** | **-/+** | **-/+** |

**Tabl NTS-11: Crynodeb o brif ganfyddiadau'r AoS – Ffotofoltäig Solar**

| **Amcan yr AoS** | **Asesiad o effeithiau heb fod yn generig (yn ôl amserlen)** | | |
|---|---|---|---|
| | Tymor Byr | Tymor Canolig | Tymor Hir |
| Gwella rhwydweithiau bioamrywiaeth ac ecolegol, sicrhau manteision net o ran bioamrywiaeth, diogelu a chefnogi gwytnwch yr ecosystem a'i swyddogaethau | **-** | **-/+** | **-/+** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwarchod a gwella cymeriad ac ansawdd y tirweddau, y trefluniau a'r dyfrweddau a gwarchod a gwella amwynder gweledol | **-** | **-** | **-** |
| Gwella iechyd, lles a diogelwch pob dinesydd a lleihau annhegwch ym maes iechyd | **-** | **-** | **-** |

**Tabl NTS-12: Crynodeb o brif ganfyddiadau'r AoS – Ynni Ffrwd Lanw**

| **Amcan yr AoS** | **Asesiad o effeithiau heb fod yn generig (yn ôl amserlen)** | | |
|---|---|---|---|
| | Tymor Byr | Tymor Canolig | Tymor Hir |
| Gwella rhwydweithiau bioamrywiaeth ac ecolegol, sicrhau manteision net o ran bioamrywiaeth, diogelu a chefnogi gwytnwch yr ecosystem a'i swyddogaethau | **-** | **-** | **-** |
| Gwarchod a gwella cymeriad ac ansawdd y tirweddau, y trefluniau a'r dyfrweddau a gwarchod a gwella amwynder gweledol | **-** | **-** | **-** |

**Tabl NTS-13: Crynodeb o brif ganfyddiadau'r AoS – Ynni gwynt ar y tir**

| **Amcan yr AoS** | **Asesiad o effeithiau heb fod yn generig (yn ôl amserlen)** | | |
|---|---|---|---|
| | Tymor Byr | Tymor Canolig | Tymor Hir |
| Gwella rhwydweithiau bioamrywiaeth ac ecolegol, sicrhau manteision net o ran bioamrywiaeth, diogelu a chefnogi gwytnwch yr ecosystem a'i swyddogaethau | **-/+** | **-/+** | **-/+** |
| Gwarchod a gwella cymeriad ac ansawdd y tirweddau, y trefluniau a'r dyfrweddau a gwarchod a gwella amwynder gweledol | **--** | **--** | **--** |
| Gwella iechyd, lles a diogelwch pob dinesydd a lleihau annhegwch ym maes iechyd | **-** | **-** | **-** |
| Hyrwyddo economi gref gyda chyfleoedd i gymunedau lleol | **-/+** | **-/+** | **-/+** |

Sylwch fod cyflwyno Ynni Gwynt ar y Tir fel technoleg yn teilyngu cynnal asesiad cwbl newydd o'r dechnoleg hon yn yr AoS sydd wedi'i ddiweddaru.

Fel sy'n ofynnol gan Reoliadau'r Asesiad Amgylcheddol Strategol, mae asesiad o opsiynau amgen rhesymol hefyd wedi cael ei gynnal mewn perthynas â'r EN-3 diweddaraf. Y ddau opsiwn arall a aseswyd yn erbyn EN-3 wedi'i ddiweddau yw:

- EN-3 (a): dim ond caniatâd ar gyfer biomas/gorsaf Troi Gwastraff yn Ynni gyda chyfleusterau Casglu a Storio Cyfunol (CCS),
- EN-3 (b): dim caniatâd ar gyfer Ynni Gwynt ar y Tir.

Sylwch fod opsiwn amgen EN-3 (b) yn newydd yn yr AoS sydd wedi'i diweddaru ac mae'n adlewyrchu'r ffaith bod yr EN-3 blaenorol wedi eithrio technoleg o'r fath.

**Tabl NTS-14: Crynodeb o ganfyddiadau'r AoS ar gyfer Opsiynau Amgen i EN-3**

| Prif Themâu Datblygu Cynaliadwy | EN-3 | Opsiwn amgen (a) | Opsiwn amgen (b) |
|---|---|---|---|
| Newid Hinsawdd (Sero Net) | | Cadarnhaol / Negyddol | Negyddol |
| Diogelwch y Cyflenwad Ynni | | Negyddol | Negyddol |
| Iechyd a Lles | | Cadarnhaol / Negyddol | Negyddol |
| Yr Economi | | Cadarnhaol / Negyddol | Negyddol |
| Yr Amgylchedd Adeiledig | | Cadarnhaol / Negyddol | Cadarnhaol |
| Yr Amgylchedd Naturiol | | Cadarnhaol / Negyddol | Cadarnhaol |

Y prif wahaniaeth rhwng opsiwn amgen (a) ac EN-3 wedi'i ddiweddaru fyddai'r budd ar gyfer cyflawni sero net, a hynny o ganlyniad i leihau allyriadau Troi Gwastraff yn Ynni a hefyd biomas oherwydd gosod dal a storio carbon. Mae'r asesiad hwn yn ansicr iawn a byddai'n dibynnu ar beth sy'n digwydd i'r gwastraff os na chaiff ei ddefnyddio yn y sector pŵer (gan fod adfer ynni o wastraff gweddilliol yn cael llai o effaith ar nwyon tŷ gwydr na safleoedd tirlenwi) ac i ba raddau y gall biomas fod yn fwy cost-effeithiol wrth ddatgarboneiddio sectorau eraill (fel gwres a thrafnidiaeth) dros y tymor hir.

Fodd bynnag, gallai'r defnydd o ddal a storio carbon gyda biomas ac ynni o wastraff fod yn opsiwn amgen mwy cynaliadwy na'r polisïau a nodir yn y EN-1 a'r EN-3 diweddaraf, os cânt eu gweithredu mewn ffordd sy'n lleihau canlyniadau anfwriadol.

Gallai opsiwn amgen (b), peidio â chaniatáu ynni gwynt ar y tir, fod yn niweidiol o ran cyrraedd targedau Sero Net gan y byddai angen rhoi'r ddibyniaeth ar dechnolegau cynhyrchu ynni eraill gydag ôl troed carbon uwch. Gallai opsiwn amgen (b) hefyd fod yn niweidiol i Ddiogelwch y Cyflenwadau, yr Economi ac Iechyd a Lles gan y gallai roi diogelwch y cyflenwad yn y fantol. Gallai hyn yn ei dro gael effaith ar yr economi a chynyddu biliau ynni i ddefnyddwyr.

Ar draws y themâu datblygu cynaliadwy sy'n weddill (Yr Amgylchedd Adeiledig a'r Amgylchedd Naturiol), gallai mabwysiadu opsiwn amgen (b) o'i gymharu â'r EN-3 diweddaraf roi gwell gwarchodaeth i dirweddau, trefluniau ac amwynder gweledol yn ogystal â bioamrywiaeth, archaeoleg a threftadaeth ddiwylliannol.

Y prif wahaniaethau rhwng yr EN-3 amgen diweddaraf hwn yw manteision posibl ar gyfer yr Amgylchedd Adeiledig a Naturiol ond anfanteision ar gyfer Newid Hinsawdd, Diogelwch y

Cyflenwad, Iechyd a Lles a’r Economi. Felly, cynnwys ynni gwynt ar y tir yn yr EN-3 diweddaraf sy'n cael ei ffafrio gan y bydd yn helpu i ddatgarboneiddio’r system drydan yn gyflymach ac yn cyrraedd targedau sero net ac arallgyfeirio’r gymysgedd ynni gyda llai o ddibyniaeth ar danwydd ffosil, gan wella diogelwch y cyflenwad. Drwy fod yn un o’r ffurfiau rhataf o gynhyrchu ynni adnewyddadwy, bydd yn cyfrannu at leihau costau trydan a biliau ynni hefyd.

# 6. Canfyddiadau’r AoS ar gyfer EN-5 wedi'i ddiweddaru – Seilwaith Rhwydweithiau Trydan

Dyma brif bwyntiau’r AoS ar gyfer EN-5 wedi’i ddiweddaru:

- Mae datblygiad seilwaith rhwydweithiau trydan yn cael effeithiau tebyg i fathau eraill o seilweithiau ynni, er bod effeithiau llinellau trydan hir sy'n mynd ar draws gwledydd yn aml yn fwy gwasgaredig ac yn mynd ar draws ardal ehangach. Felly, ar gyfer y rhan fwyaf o amcanion yr AoS, ystyrir bod effeithiau strategol EN-5 wedi’i ddiweddaru yn cyfateb i’r rhai a nodwyd yn yr AoS-1 wedi’i ddiweddaru.
- Ystyriwyd effeithiau heb fod yn generig a oedd yn gysylltiedig â manylion ychwanegol a ddarparwyd am y Technolegau yn EN-5 ar gyfer pedwar amcan AoS (Allyriadau Carbon, Bioamrywiaeth, Tirwedd a Threflun, yn ogystal ag Iechyd a Lles). Canfuwyd bod yr effeithiau heb fod yn generig yn dal yn gyffredinol negyddol ar draws y tymor byr, y tymor canolig a’r tymor hir ar gyfer yr Amcanion AoS hyn, ar wahân i iechyd a lles, sy’n cael eu hystyried yn niwtral.
- O ran y targed cenedlaethol i leihau allyriadau carbon i Sero Net erbyn 2050, ystyrir bod yr effeithiau’n dal yn negyddol ar draws y tymor byr, y tymor canolig a’r tymor hir, oherwydd y defnydd posibl nad oes modd ei osgoi o SF6 mewn gêr switsh.
- Mân effeithiau negyddol technoleg ar fioamrywiaeth yn y tymor byr, y tymor canolig a’r tymor hir, oherwydd y posibilrwydd y bydd llinellau uwchben yn parhau i effeithio ar adar mewn rhai amgylchiadau, er gwaethaf y mesurau lliniaru a gynigir.
- Effeithiau negyddol sylweddol a pharhaus ar dirwedd a threflun / amwynder gweledol, ar draws y tymor byr, y tymor canolig a’r tymor hir, oherwydd bod llinellau uwchben yn cael effaith barhaol ar gymeriad a gosodiad tirwedd a threflun.
- Disgwylir y bydd effeithiau negyddol bach ar iechyd a lles yn dal i godi ar draws y tymor byr, y tymor canolig a’r tymor hir, oherwydd y posibilrwydd y bydd pobl sy’n byw ger llinellau pŵer yn dod i gysylltiad ag EMF.

Mae’r EN-1 diweddaraf (sy’n cael ei lywio gan AoS-1 wedi’i ddiweddaru) yn cynnwys mesurau lliniaru helaeth i sicrhau bod yr effeithiau hyn yn cael eu hystyried gan ymgeiswyr a’r Arolygiaeth Gynllunio wrth baratoi ceisiadau a phenderfynu arnynt.

Mae EN-5 wedi’i ddiweddaru hefyd yn nodi bod dull strategol o gynllunio rhwydwaith yn hanfodol. Bydd hyn yn cael ei wneud drwy Ddylunio Rhwydwaith Cyfannol (HND) ac ymarferion dilynol cysylltiedig, ynghyd â’r Cynlluniau Rhwydwaith Strategol Canolog (CSNP). Y

bwriad yw y bydd y dull hwn yn helpu i leihau effaith gyffredinol seilwaith drwy nodi cyfleoedd i gydlynu, lle bo hynny’n briodol, a chymryd golwg gyfannol ar y rhwydwaith ar y tir ac ar y môr.

Bydd y CSNP yn cynnig dull gweithredu annibynnol hirdymor hyd at 2050 ar sut dylai’r rhwydwaith trawsyrru ddatblygu i gyflawni targedau diogelwch ynni a datgarboneiddio. Bydd yn cael ei gyflwyno gan y Gweithredwr System Ynni Cenedlaethol (NESO) a’i reoleiddio gan Ofgem. Bydd y CSNP cyntaf yn cael ei gyflwyno yn 2027. Bydd amrywiaeth o asesiadau amgylcheddol hefyd yn cael eu cynnal o gynigion a nodir yn y dull gweithredu strategol hwn ac mae’n rhaid i’r dewis o ateb strategol gyd-fynd ag Adrannau perthnasol o EN-1 wedi’i ddiweddaru ac EN-5 wedi’i ddiweddaru, er enghraifft o ran gosod o dan y ddaear mewn rhai tirweddau dynodedig.

Mae EN-5 wedi’i ddiweddaru (sy’n cael ei lywio gan AoS-5 wedi’i ddiweddaru) yn cynnwys amrywiaeth o fesurau technoleg lliniaru penodol, ynghyd â’r rheini a gynigir yn EN-1 wedi’i ddiweddaru, sy’n ceisio mynd i’r afael â’r ystod o effeithiau negyddol a nodwyd. Serch hynny, ystyrir y bydd effeithiau negyddol gweddilliol, ond ansicr, yn dal i barhau yn y rhan fwyaf o achosion ar gyfer y pedwar amcan AoS a ystyriwyd.

**Tabl NTS-15: Crynodeb o brif ganfyddiadau’r AoS – yn benodol i Rwydweithiau Trydan**

| **Amcan yr AoS** | **Asesiad o effeithiau heb fod yn generig (yn ôl amserlen)** | | |
|---|---|---|---|
| | **Tymor Byr** | **Tymor Canolig** | **Tymor Hir** |
| Cyd-fynd â’r targed cenedlaethol i leihau allyriadau carbon i Sero Net erbyn 2050 | - | - | - |
| Gwella rhwydweithiau bioamrywiaeth ac ecolegol, sicrhau manteision net o ran bioamrywiaeth, diogelu a chefnogi gwytnwch yr ecosystem a’i swyddogaethau | - | - | - |
| Gwarchod a gwella cymeriad ac ansawdd y tirweddau, y trefluniau a’r dyfrweddau a gwarchod a gwella amwynder gweledol | -- | -- | -- |
| Gwella iechyd, lles a diogelwch pob dinesydd a lleihau annhegwch ym maes iechyd | - | - | - |

Fel sy’n ofynnol gan Reoliadau’r Asesiad Amgylcheddol Strategol, cynhaliwyd asesiad o opsiynau amgen rhesymol mewn perthynas â’r EN-5 wedi’i ddiweddaru. Cafodd un opsiwn arall ei nodi a’i asesu: mabwysiadu rhagdybiaeth gyffredinol y dylid gosod pob llinell drydan o dan y ddaear.

**Tabl NTS-16: Crynodeb o ganfyddiadau’r AoS ar gyfer opsiynau amgen i EN-5 wedi’i ddiweddaru**

| **Prif Themâu Datblygu Cynaliadwy** | **EN-5** | **Opsiwn amgen (a)** |
|---|---|---|
| Newid hinsawdd (Sero Net) | | Negyddol |
| Diogelwch y cyflenwad ynni | | Negyddol |
| Iechyd a lles | | Cadarnhaol / Negyddol |
| Yr economi | | Negyddol |
| Yr amgylchedd adeiledig | | Negyddol |
| Yr amgylchedd naturiol | | Cadarnhaol / Negyddol |

Dyma'r prif wahaniaethau rhwng yr opsiwn amgen hwn a'r EN-5 wedi'i ddiweddaru:

- niweidiol o ran cyflawni Sero Net oherwydd yr allyriadau ychwanegol sy'n gysylltiedig â thechnolegau twnelu sy'n defnyddio llawer o ynni.
- niweidiol i Ddiogelwch y Cyflenwad Ynni a'r Economi oherwydd costau uwch a mwy o darfu yn sgil gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio.
- niweidiol i'r Amgylchedd Adeiledig gan y gallai gwaith cloddio ar gyfer gosod o dan y ddaear effeithio ar archaeoleg nad oes neb yn gwybod amdani ar hyn o bryd.

Gan fod gan linellau tanddaearol ystod o effeithiau niweidiol eu hunain, a'u bod yn ddrutach o lawer, ystyrir ei bod yn well mabwysiadu'r polisïau a nodir yn EN-1 ac EN-5 a ddiweddarwyd. Y rheswm am hyn yw bod yr ystod o ffactorau i'w hystyried yn golygu mai'r ffordd orau o wneud unrhyw benderfyniad ynglŷn â gosod llinellau o dan y ddaear yw o fewn fframwaith polisi mwy hyblyg – a hynny ar ôl cynnal gwerthusiad fesul achos o'r holl effeithiau sy'n gysylltiedig â phrosiect ac sy'n cefnogi defnyddio llinellau o dan y ddaear a llinellau uwchben fel y bo'n briodol, yn unol â chanfyddiadau'r arfarniad.

# 7. Effeithiau cronnus gyda chynlluniau a rhaglenni eraill

Mae effeithiau cronnus sy'n codi mewn perthynas ag economïau, cymunedau a'r amgylchedd, lle mae effeithiau nifer o ddarnau arfaethedig o seilweithiau ynni newydd yn dod ar draws ei gilydd, yn rhan hanfodol o asesiadau EN-1 i EN-5, gan gynnwys unrhyw ddiweddariadau i'r ENs.

Gall effeithiau cronnus hefyd godi wrth i effeithiau'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol ar ynni gyfuno ag effeithiau o gynlluniau a pholisïau eraill. Fodd bynnag, oherwydd natur strategol a lefel uchel y Datganiadau Polisi Cenedlaethol ar ynni a diffyg unrhyw fanylion lleoliadol a phenodol am unrhyw ddatblygiadau seilwaith sy'n debygol o gael eu cyflwyno, yn ogystal â'r anorfodrwydd y bydd oedi rhwng mabwysiadu'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol ar ynni ac unrhyw ddatblygiad seilwaith ynni dilynol, nid yw'n bosibl gwybod pryd (neu, yn wir, os) y bydd unrhyw gynnig ar gyfer prosiect dilynol yn cael ei gyflwyno. Oherwydd hyn, nid yw'n bosibl rhagweld pa gynlluniau a phrosiectau eraill fydd yn berthnasol i asesiadau prosiect yn y dyfodol. Er bod hyn yn wir yng nghyswllt yr AoS hwn sydd wedi'i ddiweddaru, cydnabyddir bod dull gweithredu mwy strategol yn debygol, drwy elfennau fel Dylunio Rhwydwaith Cyfannol, y Cynllun Ynni Gofodol Strategol a'r Cynllun Rhwydwaith Strategol Canolog (mewn perthynas â llinellau trawsyrru a nodir yn EN-5 wedi'i ddiweddaru) a bydd effeithiau cronnus yn cael eu hystyried fel rhan o'r prosesau hynny.

Dyma'r mathau o PPP a allai gael effeithiau cronnus neu gyfunol gyda seilwaith a ddatblygir o dan y Datganiadau Polisi Cenedlaethol wedi'u diweddaru:

- Ceisiadau wedi'u cyflwyno ond yn aros am benderfyniad;
- Prosiectau'n destun adolygiad cyfnodol;
- Prosiectau wedi'u hawdurdodi ond heb eu cychwyn eto;
- Prosiectau wedi cychwyn ond heb eu cwblhau eto;
- Prosiectau hysbys nad oes angen awdurdodiad allanol ar eu cyfer;
- Cynigion mewn cynlluniau a fabwysiadwyd;
- Cynigion mewn cynlluniau drafft wedi'u cyhoeddi'n ffurfiol neu eu cyflwyno ar gyfer ymgynghoriad terfynol, archwiliad neu fabwysiadu.

Mae'r mathau nodweddiadol o effeithiau a allai arwain at effeithiau cronnus neu gyfunol yn cynnwys y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt):

- Llai o allu i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd
- Sŵn, dirgrynu a golau'n achosi aflonyddwch;
- Llygredd aer, tir a dŵr;

- Newidiadau i swm / llif dŵr a newid arfordirol;
- Newidiadau i dirwedd;
- Cynnydd yn nifer y rhywogaethau sy'n cael eu hanafu ac yn marw;
- Newidiadau o ran maint, cyfansoddiad a strwythur cynefinoedd;
- Newidiadau i ffactorau sy'n effeithio ar Iechyd a Lles;
- Gofynion trafnidiaeth newydd;
- Newidiadau i ffactorau sy'n effeithio ar yr Economi.

Mae effeithiau cyfunol o'r fath yn fwy tebygol o godi pan fydd nifer o brosiectau'n cael effeithiau tebyg; wrth i'r effeithiau fynd yn fwy na'r hyn y gall y paramedrau cynaliadwyedd perthnasol eu goddef a datblygu i fod yn effeithiau sylweddol. Sylwch y gall prosiectau sy'n cynnwys datblygiadau seilwaith nad ydynt yn rhai ynni a datblygiadau ar raddfa lai nad ydynt yn NSIP hefyd arwain at effeithiau cronnus neu gyfunol, a dylid eu hystyried ar y pwynt priodol. Gall effeithiau cyfunol ymwneud ag agosrwydd, cysylltedd a/neu amseru. Mae'r effeithiau cyfun mwyaf cyffredin yn cynnwys ansawdd aer, ansawdd/swm dŵr ac effeithiau aflonyddu ar gynefinoedd/rhywogaethau.

# 8. Effeithiau trawsffiniol

Mae effeithiau trawsffiniol yn ymestyn i sawl gwlad yn hytrach na dim ond y DU. Mae effeithiau trawsffiniol posibl y Datganiadau Polisi Cenedlaethol yn cael eu trin mewn ffordd debyg i effeithiau cronnus eraill, dim ond bod yr asesiad yn edrych ar yr effeithiau sy'n dod o'r DU ond sydd â'r gallu i ymestyn ar draws ffiniau cenedlaethol. Mae effeithiau trawsffiniol yn cael sylw drwy Reoliad 14 o Reoliadau'r Asesiad Amgylcheddol Strategol, sy'n ei gwneud yn ofynnol i roi gwybod i Aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd am unrhyw Gynllun neu Raglen sy'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar amgylchedd yr Aelod-wladwriaeth honno.

Nid ystyrir bod y diweddariadau a wnaed mewn perthynas ag EN-1, EN-3 ac EN-5 yn arwain at effeithiau trawsffiniol newydd. O'r herwydd, nid yw'r asesiad o effeithiau trawsffiniol wedi newid ers fersiwn flaenorol y Datganiad Polisi Cenedlaethol. Mae'r ddau fath o dechnoleg sy'n dal i gael eu hystyried yn yr asesiad hwn o effeithiau trawsffiniol yn dal yn ynni niwclear ac yn ynni gwynt ar y môr, ac maent yn cael eu hailddatgan yma er mwyn bod yn gyflawn.

Mae effeithiau trawsffiniol gorsafoedd pŵer niwclear yn cael sylw yn AoS EN-6 ac mae disgwyl i'r EN-7 newydd roi sylw iddynt hefyd. Gall rhyddhau ymbelydredd o orsafoedd pŵer niwclear yn anfwriadol arwain at effeithiau trawsffiniol. Yn y DU, bydd angen i'r cyrff rheoleiddio niwclear fod yn fodlon bod y risgiau radiolegol a risgiau eraill i'r cyhoedd sy'n gysylltiedig â rhyddhau sylweddau ymbelydrol yn ddamweiniol mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol ac o fewn y terfyn risg radiolegol perthnasol. Fel rhan o'r broses o drwyddedu safleoedd, bydd gofyn i ddarpar weithredwr ddangos bod y cyfleuster niwclear wedi'i ddylunio, a bod modd ei weithredu gyda nifer o lefelau o ddiogelwch ac amddiffyniad yn erbyn methiant neu nam sylweddol. Hefyd, bydd angen iddynt ddangos bod strategaethau rheoli damweiniau a pharodrwydd ar gyfer argyfyngau ar waith a bod pob cam rhesymol ymarferol wedi cael ei gymryd i leihau'r canlyniadau radiolegol fyddai'n deillio o ddamwain. Mae cadernid y drefn reoleiddio sy'n gysylltiedig â'r sefydliadau hyn yn y DU yn golygu mai isel yw'r tebygolrwydd o ryddhau ymbelydredd yn anfwriadol, ac unrhyw effeithiau trawsffiniol sylweddol o ganlyniad i hynny.

Mae prosesau rheoli llym ar gyfer rhyddhau ymbelydredd o orsafoedd pŵer niwclear, yn unol â'r terfynau a bennir mewn trwyddedau a gyhoeddir gan yr Arolygiaeth Safleoedd Niwclear ac Asiantaeth yr Amgylchedd o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016. Mae'r system reoleiddio hon yn sicrhau bod gollyngiadau ymbelydrol a ganiateir o fewn terfynau awdurdodedig. Mae'r datganiadau hyn yn debygol o aros yn ddigon lleol fel na fyddant yn effeithio'n sylweddol ar wledydd cyfagos.

Nodir effeithiau trawsffiniol ffermydd gwynt ar y môr mewn perthynas â physgod, mamaliaid morol ac adar gan fod eu symudiadau'n annibynnol ar ffiniau daearyddol cenedlaethol. Daeth yr asesiad bioamrywiaeth ar gyfer y dechnoleg hon i'r casgliad bod effeithiau trawsffiniol arwyddocaol yn debygol ar y derbynyddion hyn. Mae'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn dod i'r casgliad fod posibilrwydd y bydd effeithiau niweidiol ar safleoedd cynefinoedd mewn gwledydd eraill (trawsffiniol), yn enwedig o ganlyniad i ddatblygiadau gwynt ar y môr ac arfordirol.

Mae effeithiau trawsffiniol ffermydd gwynt ar y môr hefyd yn cael eu nodi ar weithgareddau pobl, fel mordwyo, ynni gwynt, a’r cysylltiad â’r grid.

Felly, ystyrir y dylid ymgynghori ag Iwerddon, Ffrainc, Gwlad Belg, yr Almaen, Denmarc, Sweden a’r Iseldiroedd ynghylch y potensial ar gyfer effeithiau amgylcheddol arwyddocaol rhoi’r Datganiad Polisi Cenedlaethol ar waith. Am yr un rhesymau, byddai effeithiau posibl hefyd ar Norwy a Thiriogaethau Dibynnol y Goron – Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel.

# 9. Nodyn ar bolisi Blaenoriaeth Genedlaethol Hanfodol

Mae'r EN-1 wedi'i ddiweddaru yn cydnabod bod taer angen i'r Deyrnas Unedig fod yn fwy annibynnol o ran ynni, gyda chyflenwad ynni diogel a chadarn. I sicrhau hyn, bydd angen trawsnewidiad llyfn i ddibyniaeth lawer mwy ar ffynonellau ynni carbon isel er mwyn cyrraedd nodau sero net 2050. Mae'r gofyniad hwn yn amlwg yn cyd-fynd â Chynllun Gweithredu diweddaraf y llywodraeth ar gyfer Pŵer Glân 2030 – sy'n ceisio cyflymu'r broses o ddarparu pŵer adnewyddadwy a charbon isel ym Mhrydain Fawr hyd at 2030, gydag o leiaf 95% o'r gwaith cynhyrchu ynni yn cael ei wneud drwy ddefnyddio ffynonellau glân, a phwyslais hirdymor ar drydaneiddio.

Er mai newid hinsawdd yw'r brif her amgylcheddol, gyda goblygiadau difrifol i'r holl faterion economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol a nodir yn yr AoS diweddaraf hwn, dylid cydnabod hefyd y gall canolbwyntio ar gynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel er mwyn cyrraedd targedau Sero Net a sicrhau diogelwch y cyflenwad wynebu heriau difrifol o ran cynaliadwyedd, a bydd angen gwneud penderfyniadau anodd yn ystod y broses gynllunio ar gyfer unrhyw NSIP ynni newydd o'r fath. Felly, mae'r EN-1 wedi'i ddiweddaru yn nodi bod angen sicrhau bod y DU yn gallu cynnal safonau amgylcheddol uchel a lleihau effeithiau, gan gynyddu'r lefelau cyflwyno sydd eu hangen ar yr un pryd i sicrhau diogelwch ynni a'r uchelgais o ran sero net.

Ar sail hyn, mae'r llywodraeth wedi dod i'r casgliad fod blaenoriaeth genedlaethol hanfodol (CNP) ar gyfer darparu seilwaith carbon isel newydd sylweddol ar lefel genedlaethol. Diffinnir hyn fel rhagdybiaeth polisi (yn amodol ar unrhyw ofynion cyfreithiol – gan gynnwys o dan adran 104 o Ddeddf Cynllunio 2008), y bydd yr angen brys am Seilwaith CNP i gyflawni ein hamcanion ynni, ynghyd â buddion diogelwch gwladol, economaidd, masnachol a sero net, at ei gilydd yn fwy nag unrhyw effeithiau gweddilliol eraill na ellir eu datrys drwy ddefnyddio'r hierarchaeth lliniaru.

Gan nodi bod Troi Gwastraff yn Ynni wedi'i eithrio ac ychwanegu ynni gwynt ar y tir, mae EN-1 wedi'i ddiweddaru yn nodi bod y technolegau cynhyrchu ynni canlynol yn rhai carbon isel ac felly'n seilwaith CNP:

- ar gyfer cynhyrchu trydan, yr holl gynhyrchu ar y tir ac ar y môr nad yw'n cynnwys hylosgi tanwydd ffosil (hynny yw, cynhyrchu adnewyddadwy, gan gynnwys gweithfeydd treulio anaerobig, ar yr amod eu bod yn bodloni'r diffiniadau presennol o garbon isel; a chynhyrchu ynni niwclear) ar gyfer cynhyrchu trydan a gwres, gan gynnwys ar gyfer dibenion terfynol eraill, fel hydrogen ar gyfer datgarboneiddio diwydiannau trwm a thrafnidiaeth, yn ogystal â chynhyrchu nwy naturiol sy'n barod i ddal carbon.
- o ran seilwaith y grid trydan, yr holl linellau pŵer sydd o fewn cwmpas EN-5, gan gynnwys gwaith i atgyfnerthu ac uwchraddio'r rhwydwaith, a seilwaith cysylltiedig fel is-

orsafoedd. Nid yw hyn wedi'i gyfyngu i'r rheini sy'n gysylltiedig â thechnoleg benodol, oherwydd mae gan bob prosiect grid newydd ran i'w chwarae yn y gwaith o fynd ati'n effeithlon i adeiladu, gweithredu a chysylltu seilwaith carbon isel â'r System Trawsyrru Trydan Genedlaethol.

- o ran seilweithiau ynni eraill, technolegau, tanwyddau, piblinellau a seilweithiau storio eraill sy'n cyd-fynd â'r diffiniad arferol o "garbon isel", fel dosbarthu hydrogen a dosbarthu carbon deuocsid.
- o ran seilwaith ynni sydd wedi'i gyfeirio at y gyfundrefn NSIP o dan adran 35 o Ddeddf Cynllunio 2008, ac sy'n cyd-fynd â'r diffiniad arferol o "garbon isel", fel rhyng-gysylltwyr, Asedau Hybrid ar y Môr, neu 'bootstraps' i gynnal y rhwydwaith ar y tir sy'n cael ei lwybro allan i'r môr.
- hefyd yn rhan o seilwaith CNP mae estyniadau i oes seilwaith carbon isel o arwyddocâd cenedlaethol, ac ail-bweru prosiectau.

Bydd egwyddorion a phrosesau asesu a amlinellir yn y Datganiadau Polisi Cenedlaethol perthnasol wedi'u diweddaru a heb eu diweddaru yn parhau i fod yn berthnasol i unrhyw Seilwaith CNP, gan ystyried yr holl effeithiau a'r buddion perthnasol ar gyfer pob cais cynllunio, fesul achos. Felly, rhaid i ymgeiswyr am seilwaith CNP barhau i ddangos sut mae eu cais yn bodloni'r gofynion a nodir yn yr EN-1 diweddaraf a'r Datganiad Polisi Cenedlaethol perthnasol sy'n benodol i dechnoleg, gan ddefnyddio'r hierarchaeth lliniaru, yn ogystal ag unrhyw ofynion cyfreithiol a rheoleiddiol eraill. Er hynny, sylwer bod EN-1 wedi'i ddiweddaru yn nodi na ddylid ystyried mesurau lliniaru sy'n arwain at ostyngiad sylweddol mewn capasiti cynhyrchu ar gyfer seilwaith CNP yn fesurau lliniaru priodol.

O'r herwydd, rhagwelir y bydd gofynion cyfreithiol fel y rheini sy'n dod o dan Reoliadau Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, neu Reoliadau Cynefinoedd (neu ddeddfwriaeth olynol), yn parhau i fod yn berthnasol i bob datblygiad seilwaith ynni perthnasol, ac y gwneir pob ymdrech i osgoi a lleihau, a dim ond ar ôl hynny gwneud iawn am effeithiau arwyddocaol NSIP.

Rhaid i ddatblygwyr ddangos yn eu cais bod yr hierarchaeth lliniaru wedi cael ei defnyddio. Dylai datblygwyr hefyd ddangos y gofynnwyd am gyngor y Corff Gwarchod Natur Statudol (SNCB) priodol er mwyn penderfynu bod yr holl effeithiau gweddilliol yn wirioneddol yn rhai na ellir eu hosgoi, eu lleihau neu eu lliniaru. Anogir ymgysylltu ag unrhyw SNCB yn gynnar, er mwyn helpu i sicrhau mai dim ond ceisiadau sydd wedi'u paratoi'n llawn ac yn gynhwysfawr y gellir eu derbyn i'w harchwilio, fel bod modd iddynt gael eu hasesu'n briodol gan yr Awdurdod Archwilio, gan arwain at adroddiad argymhellion clir i'r Ysgrifennydd Gwladol.

Felly, rhagwelir y bydd mesurau cadarn i sicrhau diogelwch amgylcheddol yn cael eu darparu ar gyfer y rhan fwyaf o faterion amgylcheddol. Wedyn, dim ond mewn amgylchiadau eithriadol – gydag effeithiau gweddilliol nad oes modd rhoi sylw iddynt drwy'r hierarchaeth lliniaru (o unrhyw fath ac eithrio'r rheini sy'n cyflwyno risg annerbyniol i iechyd pobl, mordwyo neu amddiffyn cenedlaethol neu'n amharu arnynt mewn ffordd amhriodol) – y bydd yr angen am y mesurau diogelu hyn yn cael ei ystyried yn 'ddewis olaf'. Bryd hynny, bydd modd dangos yn

foddhaol na fyddai'n bosibl datblygu'r seilwaith carbon isel fel arall oherwydd effeithiau amgylcheddol gweddilliol arwyddocaol.

Bydd y dull 'dewis olaf' hwn yn dal i arwain nid yn unig at effeithiau arwyddocaol tebygol ar yr amgylchedd ond hefyd at effeithiau arwyddocaol tebygol ar elfennau eraill sy'n ymwneud â chynaliadwyedd – nid rhai o natur amgylcheddol yn unig o reidrwydd – a allai fod yn gadarnhaol neu'n negyddol, neu'n gyfuniad o'r ddau. Gall effeithiau hefyd fod yn wahanol o un dechnoleg i'r llall.

Mae hefyd yn bwysig nodi bod Cynllun Gweithredu Pŵer Glân 2030 diweddar y llywodraeth yn nodi amcanion clir ynghylch osgoi effeithiau amgylcheddol arwyddocaol ar gyfer seilwaith ynni carbon isel. Mae amcanion o'r fath yn cynnwys sicrhau bod gwarchod natur yn cael ei sefydlu wrth gyflwyno Pŵer Glan 2030 ac y dylid adeiladu seilwaith ynni newydd mewn ffordd sy'n diogelu'r amgylchedd naturiol drwy ddilyn "hierarchaeth lliniaru" i wneud yr hyn sy'n bosibl i osgoi difrod i fyd natur, ac yna lleihau, adfer a digolledu pan nad oes modd osgoi niwed. Y gwir gyfle sydd ar gael i'r DU yw darparu pŵer glân erbyn 2030 mewn ffordd gadarnhaol o ran natur, fel ail-wlychu priddoedd mawn ar yr iseldir wrth adeiladu ffermydd solar newydd neu greu coridorau bywyd gwyllt newydd ochr yn ochr â seilwaith ynni llinol neu oddi tano. Yn hytrach na "chydbwyso" ynni a'r anghenion amgylcheddol, mae'r pwyslais yma ar integreiddio. Mae'n golygu ailadeiladu seilwaith naturiol ar yr un pryd ag y mae'r seilwaith ynni newydd sydd ei angen arnom yn cael ei adeiladu. Gan fod y rhan fwyaf o'r technolegau cynhyrchu ynni a nodir fel CNP yn rhan o'r seilwaith ynni carbon isel y mae Pŵer Glân 2030 yn dibynnu arno, un o argymhellion yr AoS yw bod angen gwreiddio amcanion Pŵer Glân 2030 ym mhroses asesu seilwaith y CNP – gan yr ymgeisydd, ac ym mhenderfyniadau'r Ysgrifennydd Gwladol.

Gan fod dull gweithredu presennol y CNP yn stopio ar ddigolledu yn yr hierarchaeth lliniaru, ni fydd yn ailadeiladu natur ar yr un pryd ag y bydd y seilwaith ynni newydd yn cael ei adeiladu. Argymhellir bod polisi CNP yn datgan yn glir y bydd angen gwelliannau fel rhan o unrhyw becyn digolledu neu wneud iawn CNP.

# 10. Monitro effeithiau rhoi'r Datganiad Polisi Cenedlaethol wedi'i ddiweddaru ar waith

Mae monitro'n golygu mesur dangosyddion a fydd yn ei gwneud yn bosibl sefydlu cyswllt achosol rhwng gweithredu'r cynllun a monitro'r effaith arwyddocaol sy'n debygol (boed gadarnhaol neu negyddol). Felly, mae'n helpu i sicrhau bod unrhyw effeithiau niweidiol sy'n codi yn ystod y cam gweithredu, boed y rheini wedi'u rhagweld ai peidio, yn cael eu nodi, ac y gellir cymryd camau i ddelio â nhw.

Er nad oes effeithiau arwyddocaol wedi'u nodi mewn perthynas â'r holl Amcanion ac yr ystyrir bod y Datganiad Polisi Cenedlaethol mewn llawer o achosion yn darparu polisi cadarn i fynd i'r afael â phroblemau, mae natur ofodol amhenodol y Datganiad Polisi Cenedlaethol yn golygu bod rhywfaint o ansicrwydd o ran canfyddiadau mewn rhai achosion, ac o'r herwydd mae posibilrwydd y bydd effeithiau cronnus neu unigol annisgwyl yn codi. Felly, ystyriwyd ei bod yn bwysig cymryd gofal wrth fonitro.

Mae'r rhaglen fonitro sydd wedi cael ei pharatoi yn fersiwn flaenorol y Datganiad Polisi Cenedlaethol yn dal yn berthnasol ac fe'i cyflwynir isod.

**Tabl NTS-17: Effeithiau cyffredinol a gofynion monitro EN-1 i EN-5, gan gynnwys y diweddariadau**

| Amcan yr AoS | Effeithiau cyffredinol y Datganiad Polisi Cenedlaethol a'r angen i fonitro |
|---|---|
| Amcan 1: Cyd-fynd â'r targed cenedlaethol i leihau allyriadau carbon i Sero Net erbyn 2050 | Yn gyffredinol, rhagwelir y bydd y Datganiadau Polisi Cenedlaethol yn dal i berfformio'n gadarnhaol iawn mewn perthynas â'r Amcan hwn drwy hyrwyddo amrywiaeth o dechnolegau di-garbon a charbon isel. Mae'n debygol o fod yn drawsnewidiol o ran galluogi Cymru a Lloegr i newid i economi carbon isel, a drwy hynny helpu i wireddu ymrwymiadau Sero Net y DU yn gynt na'r hyn fyddai'n digwydd o dan y system gynllunio bresennol. Fodd bynnag, mae rhywfaint o ansicrwydd yn parhau ynghylch union lefel y trawsnewid gan ei bod yn anodd rhagweld y cyfuniad o dechnoleg a fydd yn cael ei ddarparu gan y farchnad yn erbyn y fframwaith a osodir gan y Llywodraeth a'r cyfraniad cronnus o ran allyriadau nwyon tŷ gwydr. Mae gofyniad o hyd ar gyfer technolegau penodol sydd wedi cael eu nodi fel rhai sy'n arwain at effeithiau negyddol ar draws y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir, oherwydd y posibilrwydd o ddefnyddio technolegau heb systemau rheoli carbon ac SF6 mewn gêr |

| | |
|---|---|
| | switsh, yn y drefn honno. Felly mae'n bwysig monitro'r effeithiau penodol hyn. |
| Amcan 2: Sicrhau ein bod yn addasu cymaint ag y gallwn ac mor wydn â phosibl mewn perthynas ag asedau adeiledig, cymunedau a phobl, yn ogystal â chynefinoedd, rhywogaethau ac asedau naturiol, wrth i ni fynd i'r afael ag effeithiau niferus newid yn yr hinsawdd * | Yn gyffredinol, mae'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol yn dal i berfformio'n dda o safbwynt addasu a gwytnwch mewn perthynas â newid yn yr hinsawdd oherwydd y gofynion sy'n cael eu gosod ar ddatblygwyr i fynd i'r afael â'r pwnc hynod bwysig hwn wrth i ni wynebu newid nad oes modd ei osgoi yn yr hinsawdd. Mae rhywfaint o ansicrwydd o hyd ynghylch difrifoldeb digwyddiadau sy'n ymwneud â'r hinsawdd, sut gall technolegau addasu i amgylchiadau o'r fath, ac effeithiau ar y cyd â phrosiectau seilwaith eraill nad ydynt yn rhai ynni a allai effeithio ar y gwaith addasu. O'r herwydd, mae posibilrwydd uchel y bydd effeithiau annisgwyl yn codi yn erbyn yr amcan hwn y bydd angen eu monitro'n ofalus. |
| Amcan 3: Gwella rhwydweithiau bioamrywiaeth ac ecolegol, sicrhau manteision net o ran bioamrywiaeth, diogelu a chefnogi gwytnwch yr ecosystem a'i swyddogaethau | Mae'n dal yn bosibl y gallai'r technolegau sy'n cael eu hyrwyddo gan y Datganiad Polisi Cenedlaethol arwain at effeithiau niweidiol sylweddol ar fioamrywiaeth – ar y tir ac ar y môr – yn enwedig yn y tymor byr, ond yn y tymor canolig i'r tymor hir hefyd. Gallai'r effeithiau fod yn uniongyrchol, yn anuniongyrchol, yn gronnus neu'n synergyddol. Yn y tymor hwy, mae cyfleoedd yn parhau ar gyfer effeithiau cadarnhaol drwy gyflawni Enillion Net Bioamrywiaeth neu welliannau amgylcheddol eraill fel rhan o'r dasg o roi'r prosiectau ynni ar waith. Fodd bynnag, mae rhywfaint o ansicrwydd yn dal yn gysylltiedig â'r effeithiau a nodwyd oherwydd natur y Datganiad Polisi Cenedlaethol, nad yw'n ofodol, a'r posibilrwydd o effeithiau annisgwyl, oherwydd materion fel clystyru technoleg ac effeithiau ar y cyd â phrosiectau eraill nad ydynt yn ymwneud ag ynni, y bydd angen eu monitro'n ofalus. |
| Amcan 4: Gwarchod a gwella safleoedd sydd wedi'u dynodi oherwydd eu pwysigrwydd rhyngwladol at ddibenion gwarchod natur | Mae dal potensial y bydd effeithiau negyddol arwyddocaol ar safleoedd sydd wedi'u dynodi oherwydd eu pwysigrwydd rhyngwladol a'u dibenion cadwraeth natur (o ganlyniad i weithredu prosiectau ynni sy'n cael eu hyrwyddo gan y Datganiad Polisi Cenedlaethol neu ar y cyd â phrosiectau eraill nad ydynt yn brosiectau ynni) yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir. Gallai hyn gynnwys effeithiau ar safleoedd sy'n rhan o awdurdodaeth gwledydd eraill (trawsffiniol). Mae'r effeithiau'n dal yn ansicr oherwydd byddant yn dibynnu ar y lleoliadau penodol ac ar faint y datblygiad, sy'n anhysbys i raddau helaeth ar hyn o bryd, gan gofio nad yw'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol yn amlinellu cynigion penodol. Bydd angen monitro effeithiau o'r fath. |
| Amcan 5: Diogelu a gwella asedau treftadaeth ddiwylliannol a'u | Ar y cyfan, rhagwelir mai bach fydd yr effeithiau negyddol o hyd (gan gynnwys effeithiau cronnus) ar asedau treftadaeth a'u lleoliadau (dynodedig a heb eu dynodi) ar y tir ac ar y môr, yn y |

| | |
|---|---|
| safleoedd, ynghyd â'r amgylchedd hanesyddol ehangach | tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir. Ystyrir bod digon o ofynion wedi'u cynllunio gan y Datganiad Polisi Cenedlaethol ar gyfer datblygwyr i fynd i'r afael â'r effeithiau niweidiol disgwyliedig sy'n gysylltiedig â'r Amcan hwn. Fodd bynnag, ystyrir bod potensial hefyd ar gyfer parhad o effeithiau sylweddol annisgwyl oherwydd materion fel clystyru technolegau. Nid oes modd pennu'r rhain ar hyn o bryd oherwydd elfennau gofodol / amhenodol y Datganiad Polisi Cenedlaethol, yn ogystal ag effeithiau ar y cyd â phrosiectau seilwaith nad ydynt yn rhai ynni. Bydd angen monitro effeithiau o'r fath. |
| Amcan 6: Gwarchod a gwella cymeriad ac ansawdd y tirweddau, y trefluniau a'r dyfrweddau a gwarchod a gwella amwynder gweledol | Mae'n debygol y bydd effeithiau negyddol arwyddocaol yn parhau ar dderbynyddion gweledol, tirweddau, morweddau a threfluniau o ganlyniad i weithredu'r Datganiad Polisi Cenedlaethol yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir. Dylid nodi, oherwydd maint sylweddol y prosiectau seilwaith ynni sy'n cael eu cefnogi gan y Datganiad Polisi Cenedlaethol, hyn a hyn o gyfleoedd fydd ar gael i liniaru effeithiau o'r fath. Ystyrir hefyd fod potensial yn parhau ar gyfer effeithiau arwyddocaol annisgwyl oherwydd materion fel clystyru technolegau oherwydd elfennau gofodol / amhenodol y Datganiad Polisi Cenedlaethol, yn ogystal ag effeithiau cyfunol gyda phrosiectau seilwaith nad ydynt yn rhai ynni. Felly mae'n bwysig monitro'r effeithiau penodol hyn. |
| Amcan 7: Gwarchod a gwella amgylchedd dŵr | Mae effeithiau negyddol bach ar gyfer ansawdd dŵr yn debygol o barhau o ganlyniad i weithredu'r Datganiad Polisi Cenedlaethol yn y tymor byr hyd at y tymor hir. Ni fydd yn bosibl osgoi pob effaith negyddol ar yr amgylchedd dŵr, gan gofio maint a natur debygol y technolegau sy'n cael eu cefnogi gan y Datganiad Polisi Cenedlaethol. Gall yr effeithiau ddigwydd, er enghraifft, drwy weithgareddau adeiladu sy'n rhyddhau llygryddion i'r amgylchedd dŵr a thynnu a gollwng dŵr oeri ar gyfer technolegau fel gorsafoedd pŵer. Er yr ystyrir bod y Datganiad Polisi Cenedlaethol yn cynnig ffordd gadarn o ddelio â'r problemau hyn, mae posibilrwydd o effeithiau arwyddocaol barhau o hyd oherwydd problemau annisgwyl sy'n gysylltiedig ag elfennau gofodol / amhenodol y Datganiad Polisi Cenedlaethol, a'r potensial ar gyfer clystyru mathau penodol o seilweithiau ynni ac effeithiau ar y cyd â phrosiectau seilwaith eraill nad ydynt yn ymwneud ag ynni. Bydd angen monitro effeithiau o'r fath. |
| Amcan 8: Gwarchod a gwella ansawdd aer ar raddfa leol, ranbarthol, genedlaethol a rhyngwladol | Er bod y Datganiad Polisi Cenedlaethol yn nodi dull cadarn o reoli effeithiau ar ansawdd aer, rhagwelir y bydd effeithiau o'r fath yn dal yn debygol o fod ychydig yn niweidiol, oherwydd y posibilrwydd o allyriadau llygryddion aer yn ystod gwaith adeiladu prosiectau ac allyriadau gweddilliol wrth weithredu ar gyfer rhai |

| | |
|---|---|
| | mathau o dechnolegau. Er yr ystyrir bod y Datganiad Polisi Cenedlaethol yn cynnig ffordd gadarn o ddelio â'r problemau hyn, mae posibilrwydd o effeithiau arwyddocaol o hyd oherwydd problemau annisgwyl sy'n gysylltiedig ag elfennau gofodol / amhenodol y Datganiad Polisi Cenedlaethol, a'r potensial ar gyfer clystyru mathau penodol o seilweithiau ynni ac effeithiau ar y cyd â phrosiectau seilwaith eraill nad ydynt yn ymwneud ag ynni. Bydd angen monitro effeithiau o'r fath. |
| Amcan 9: Diogelu adnoddau pridd, hyrwyddo'r defnydd o dir llwyd ac osgoi halogi tir | Mae mân effeithiau negyddol yn dal yn debygol ar adnoddau pridd o ganlyniad i weithredu'r Datganiad Polisi Cenedlaethol yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir, a hynny oherwydd y posibilrwydd o golli tir amaethyddol a halogi pridd, o ganlyniad i ollyngiadau olew neu gemegau a ddefnyddir mewn gwaith adeiladu, gweithredu a datgomisiynu sy'n gysylltiedig â rhai mathau o seilweithiau ynni. Gall rhywfaint o waith datblygu seilwaith barhau i gynnig cyfleoedd i fynd i'r afael â halogiad, neu ailddatblygu safleoedd tir llwyd. Mae'r effeithiau a nodir yn dal yn ansicr (ac o'r herwydd, mae'n bosibl nad oes modd eu rhagweld) gan y byddant yn dibynnu ar natur, lleoliad a graddfa benodol datblygiad. Felly mae'n bwysig monitro'r effeithiau penodol hyn. |
| Amcan 10: Diogelu, gwella a hyrwyddo geoamrywiaeth | Mae'n bosibl y bydd effeithiau negyddol yn parhau ar geoamrywiaeth o ganlyniad i weithredu'r Datganiad Polisi Cenedlaethol yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir, drwy golli tir / gwely'r môr, newidiadau i brosesau arfordirol ac ati, yn enwedig yn ystod y cam adeiladu, gan effeithio ar safleoedd geoamrywiol. Fodd bynnag, oherwydd y posibilrwydd o wella mynediad at nodweddion daearegol, mae posibilrwydd hefyd o fân effeithiau cadarnhaol yn parhau yn y tymor canolig i'r tymor hir. Mae'r effeithiau a nodir yn ansicr (ac o'r herwydd, mae'n bosibl nad oes modd eu rhagweld) gan y byddant yn dibynnu ar natur, dyluniad, lleoliad a maint y datblygiad. |
| Amcan 11: Gwella iechyd, lles a diogelwch pob dinesydd a lleihau annhegwch ym maes iechyd | Bydd cyflenwadau ynni dibynadwy sy'n cael eu hyrwyddo'n genedlaethol gan y Datganiad Polisi Cenedlaethol yn dal i gyfrannu at effeithiau cadarnhaol ar yr economi ac ar sgiliau'n gyffredinol. Bydd effeithiau cadarnhaol anuniongyrchol ar iechyd a lles hefyd yn y tymor canolig i'r tymor hirach, drwy helpu i sicrhau cyflenwadau fforddiadwy o ynni a lleihau tlodi tanwydd. Mae cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth a hyfforddiant (ar draws y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir) hefyd yn dal yn debygol, o ganlyniad i effeithiau manteisiol anuniongyrchol ar les.<br><br>Mae'r Datganiad Polisi Cenedlaethol yn dal yn nodi'n glir yr angen i nodi effeithiau niweidiol posibl ar iechyd, gan gynnwys ar grwpiau agored i niwed mewn cymdeithas. Mae'n nodi y dylid |

| | |
|---|---|
| | manteisio ar gyfleoedd i liniaru effeithiau uniongyrchol drwy hyrwyddo gwelliannau lleol i annog iechyd a lles. Bydd angen ystyried hefyd y posibilrwydd o effeithiau ar y cyd â phrosiectau seilwaith eraill nad ydynt yn ymwneud ag ynni. Byddai llwyddiant dull o'r fath yn cael ei lywio drwy fonitro effeithiol. |
| Amcan 12: Hyrwyddo trafnidiaeth gynaliadwy a lleihau effeithiau niweidiol ar y rhwydwaith trafnidiaeth strategol a tharfu cyn lleied â phosibl ar seilwaith a gwasanaethau sylfaenol | Mae'r Datganiad Polisi Cenedlaethol yn dal i gynnig dull gweithredu cadarn i hyrwyddo trafnidiaeth gynaliadwy, yn ogystal â lleihau effeithiau niweidiol ar y rhwydwaith trafnidiaeth strategol a tharfu ar wasanaethau a seilwaith. Mae hefyd yn disgrifio'r angen i hyrwyddo dulliau trafnidiaeth cynaliadwy (gan gynnwys trafnidiaeth dŵr, yn ogystal â gwella mynediad drwy drafnidiaeth lesol, trafnidiaeth gyhoeddus a thrafnidiaeth a rennir, cerdded a beicio), yn ogystal â lleihau'r angen am barcio. O'r herwydd, rhagwelir y bydd effeithiau ansicr (ac o'r herwydd annisgwyl) yn parhau yn y tymor byr (adeiladu) ond y bydd manteision hefyd yn ddiweddarach yn amserlen y datblygiad. Serch hynny, mae posibilrwydd o effeithiau arwyddocaol yn parhau o hyd oherwydd problemau annisgwyl sy'n gysylltiedig ag elfennau gofodol / amhenodol y Datganiad Polisi Cenedlaethol, a'r potensial ar gyfer clystyru mathau penodol o seilwaith ynni ac effeithiau ar y cyd â phrosiectau seilwaith eraill nad ydynt yn ymwneud ag ynni. Bydd angen monitro effeithiau o'r fath. |
| Amcan 13: Hyrwyddo economi gref gyda chyfleoedd i gymunedau lleol | Bydd datblygu seilwaith ynni newydd fel y'i hyrwyddir gan y Datganiad Polisi Cenedlaethol yn dal i gefnogi diogelwch, dibynadwyedd a fforddiadwyedd y cyflenwad ynni cenedlaethol ac yn dal i arwain at ddarparu swyddi mewn ardaloedd lleol i'r datblygiad ac ymhellach i ffwrdd. Mae rhai o'r swyddi hyn yn debygol o fod yn rhai arbenigol, ond bydd eraill yn gofyn am lefel sgiliau is, neu'n addas ar gyfer prentisiaethau, neu byddant yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu sgiliau ymhellach. Rhagwelir y byddai'r rhan fwyaf o'r swyddi yn cael eu creu yn ystod y cam adeiladu, gyda llai o lawer o swyddi yn ystod y cam gweithredu ac yna cynnydd yn ystod unrhyw gam datgomisiynu. Fel y nodwyd, fodd bynnag, gall cynnydd sylweddol mewn gweithwyr arwain at straen ar y sefyllfa dai leol ac ar farchnadoedd llafur (yn enwedig mewn ardaloedd mwy gwledig / trefi llai) a theimlir y byddai monitro yn helpu i feddwl am ffyrdd o fynd i'r afael â'r materion hyn. O'r herwydd, rhagwelir o hyd rai effeithiau niweidiol bach yn y tymor byr. Drwyddi draw, fodd bynnag, dylid gweld manteision arwyddocaol mewn ardaloedd lleol yn ystod y cam adeiladu, gyda manteision yn parhau drwy'r tymor canolig i'r tymor hir. Serch hynny, mae posibilrwydd o effeithiau arwyddocaol barhau o hyd oherwydd problemau annisgwyl sy'n gysylltiedig ag elfennau gofodol / amhenodol y Datganiad Polisi Cenedlaethol, a'r |

| | |
|---|---|
| | potensial ar gyfer clystyru mathau penodol o seilwaith ynni ac effeithiau ar y cyd â phrosiectau seilwaith eraill nad ydynt yn ymwneud ag ynni. Bydd angen monitro effeithiau o'r fath. |
| Amcan 14: Hyrwyddo defnydd cynaliadwy o adnoddau ac asedau naturiol | Mae'r Datganiad Polisi Cenedlaethol yn dal i gynnig dull gweithredu cadarn ar gyfer hyrwyddo defnydd cynaliadwy o adnoddau ac asedau naturiol. Rhoddir pwyslais cryf ar hyrwyddo'r 'Economi Gylchol' a nodir sut y gall dylunio da leihau'r angen i ddefnyddio deunyddiau. Bydd cymhwyso hyn i brosiect mor gynnar â phosibl yn helpu i leihau defnydd. Gwneir nodyn clir hefyd o nifer o agweddau allweddol fel yr hierarchaeth gwastraff, a'r angen i nodi'r trefniadau a gynigir ar gyfer rheoli unrhyw wastraff a gynhyrchir ar gyfer cynlluniau rheoli gwastraff, yn ogystal â chyrchu deunyddiau o ffynonellau wedi'u hailgylchu neu eu hailddefnyddio a defnyddio deunyddiau carbon isel. Er y bydd lefel uchel o ddefnydd o ffynonellau yn y tymor byr (cyfnodau adeiladu), gan gynnwys deunydd crai, bydd hyn yn lleihau yn ystod y cam gweithredu a bydd technegau fel defnyddio offer rheoli Gwybodaeth am Adeiladu (neu debyg) yn cynnig cyfleoedd yn y tymor hir i adfer ac ailddefnyddio deunyddiau a ddefnyddir yn ystod y cam adeiladu. Bydd angen monitro'r defnydd o adnoddau a sgil-gynhyrchion gwastraff fel rhan o ddatblygiad y cynllun. |

# Geirfa a Rhestr Byrfoddau

| **Talfyriad** | **Term** |
|---|---|
| ALC | Dosbarthiad Tir Amaethyddol |
| AHNE | Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (Tirwedd Genedlaethol nawr) |
| AoS | Arfarniad o Gynaliadwyedd |
| AQMA | Ardal Rheoli Ansawdd Aer |
| BAP | Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth |
| BAT | Technegau Gorau sydd ar Gael |
| BCCUS | Bio-ynni gyda Dal, Defnyddio a Storio Carbon |
| BEIS | Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol |
| BIM | Rheoli Gwybodaeth am Adeiladau |
| BMV | Gorau a Mwyaf Amlbwrpas |
| BNG | Enillion Net Bioamrywiaeth |
| CCA | Deddf Newid yn yr Hinsawdd |
| CCC | Pwyllgor ar Newid Hinsawdd |
| CCR | Barod i Ddal Carbon |
| CCS | Dal a Storio Carbon |
| CCUS | Dal, Defnyddio a Storio Carbon |
| CfD | Contractau ar gyfer Gwahaniaeth |
| CHP | Gwres a Phŵer Cyfunedig |
| CO2 | Carbon Deuocsid |
| CNP | Blaenoriaeth Genedlaethol Hanfodol |
| CPS | Cymorth ar gyfer Prisiau Carbon |
| CSNP | Cynlluniau Rhwydwaith Strategol Canolog |

| | |
|---|---|
| DCO | Gorchymyn Cydsyniad Datblygu |
| DECC | Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd |
| Defra | Adran yr Amgylchedd, Amaeth a Materion Gwledig |
| DfT | Yr Adran Drafnidiaeth |
| DNOs | Gweithredwyr Rhwydwaith Dosbarthu |
| DTI | Yr Adran Masnach a Diwydiant |
| DWSZ | Parth Diogelu Dŵr Yfed |
| EA | Asiantaeth yr Amgylchedd |
| EIA | Asesiad o’r Effaith Amgylcheddol |
| EfW | Troi Gwastraff yn Ynni |
| EMF | Maes Electromagnetig |
| EP | Trwyddedu Amgylcheddol |
| EPR | Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol |
| EPS | Safonau Perfformiad Allyriadau |
| EQLS | Arolwg Ansawdd Bywyd Ewropeaidd |
| ES | Datganiad Amgylcheddol |
| ETS | Cynllun Masnachu Gollyngiadau |
| EU | Yr Undeb Ewropeaidd |
| FCERM | Rheoli Peryglon Llifogydd ac Erydu Arfordirol |
| FRA | Asesiad Risg Llifogydd |
| GHG | Nwy Tŷ Gwydr |
| GVA | Gwerth Ychwanegol Gros |
| GW | Giga Wat |
| HDD | Drilio Cyfeiriadol Llorweddol |
| CNT | Cerbyd Nwyddau Trwm |

| | |
|---|---|
| HND | Dylunio Rhwydwaith Cyfannol |
| HIA | Asesiad o’r Effaith ar Iechyd |
| HMT | Trysorlys EF |
| HRA | Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd |
| IED | Cyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol |
| IPCC | Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd |
| kV | Cilo Folt |
| kWh | Cilo Wat awr |
| LDD | Dogfen Datblygu Lleol |
| LNG | Nwy Naturiol Hylifedig |
| LNR | Gwarchodfa Natur Leol |
| LVIA | Asesiad o’r Effaith ar y Dirwedd a’r Effaith Weledol |
| LWS | Safle Bywyd Gwyllt Lleol |
| Mcm | Miliwn metr ciwbig safonol |
| MMO | Y Sefydliad Rheoli Morol |
| MNR | Gwarchodfeydd Natur Morol |
| MPA | Ardal Forol Warchodedig |
| MSFD | Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol |
| MW | Megawat |
| MWe | Cyfwerth â Megawat |
| NDC | Cyfraniad a Bennir yn Genedlaethol |
| NE | Natural England |
| NESO | Gweithredwr System Ynni Cenedlaethol |
| NGCC | Cylch Cyfun Nwy Naturiol |
| NMVOC | Cyfansoddyn Organig Anweddol nad yw’n Fethan |

| | |
|---|---|
| NNR | Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol |
| NOx | Ocsidau Nitrogen |
| NPPF | Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol |
| NPPG | Canllawiau Polisi Cynllunio Cenedlaethol |
| NPS | Datganiad Polisi Cenedlaethol |
| NRW | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| NSIP | Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol |
| NVZ | Parth Perygl Nitradau |
| NZ | Sero Net |
| ODPM | Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog |
| OECD | Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd |
| OHA | Asedau Hybrid ar y Môr |
| PM | Deunydd Gronynnol |
| PPP | Cynlluniau, Polisïau a Rhaglenni |
| PV | Ffotofoltäig |
| RBD | Ardal Basn Afon |
| RBMP | Cynllun Rheoli Basn Afon |
| RO | Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy |
| SA | Arfarniad o Gynaliadwyedd |
| SAC | Ardaloedd Cadwraeth Arbennig |
| SAM | Heneb Restredig |
| SCI | Safleoedd o Bwys i’r Gymuned |
| SCR | Gostyngiad Catalytig Dethol |
| SEA | Asesiad Amgylcheddol Strategol |
| SF6 | Sylffwr Hecsafflẅorid |

| | |
|---|---|
| SLVIA | Asesiad o’r Effaith ar y Morwedd a'r Dirwedd a’r Effaith Weledol |
| SNCI | Safle o Ddiddordeb Cadwraeth Natur |
| SO2 | Sylffwr Deuocsid |
| SPA | Ardal Gwarchodaeth Arbennig |
| SPZ | Ardal Diogelu Tarddiad Dŵr |
| SSSI | Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig |
| SuDS | Systemau Draenio Cynaliadwy |
| TAN | Nodyn Cyngor Technegol |
| DU | Y Deyrnas Unedig |
| UKCIP | Rhaglen Effeithiau Hinsawdd y DU |
| UKETS | Cynllun Masnachu Allyriadau’r DU |
| WFD | Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr |
| WfH | Gwastraff o Gartrefi |
| WHS | Safle Treftadaeth y Byd |

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael o: www.gov.uk/desnz

Os hoffech chi gael fersiwn o'r ddogfen hon mewn fformat mwy hygyrch, anfonwch e-bost: alt.formats@energysecurity.gov.uk. Dywedwch wrthym pa fformat sydd ei angen arnoch chi. Bydd yn help i ni os byddwch chi'n dweud pa dechnoleg gynorthwyol rydych chi'n ei defnyddio.